# Adolygiad o'r Safonau Rheoleiddio Da

Papur ymgynghori

Mehefin 2017

professional standards authority

## Ynglŷn â'r Awdurdod Safonau Proffesiynol

Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol[1] yn hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd trwy godi safonau rheoleiddio a chofrestriad gwirfoddol pobl sy'n gweithio mewn iechyd a gofal. Rydym yn gorff annibynnol, sy'n atebol i Senedd y Deyrnas Unedig.

Rydym yn goruchwylio gwaith naw corff statudol sy'n rheoleiddio gweithwyr iechyd yn y Deyrnas Unedig a gweithwyr cymdeithasol yn Lloegr. Rydym yn adolygu perfformiad y rheolyddion ac yn archwilio a chraffu ar eu penderfyniadau am a yw pobl ar eu cofrestrau yn addas i ymarfer. Rydym hefyd yn gosod safonau ar gyfer sefydliadau sy'n cynnal cofrestrau gwirfoddol o bobl mewn galwedigaethau iechyd a gofal heb eu rheoleiddio, ac yn achredu'r sefydliadau sy'n bodloni ein safonau.

I annog gwelliannau, rydym yn rhannu arfer da a gwybodaeth, yn cyflawni ymchwil ac yn cyflwyno syniadau newydd yn cynnwys ein cysyniad o reoleiddio cyffyrddiad cywir.[2] Rydym yn monitro datblygiadau polisi yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol ac yn darparu cyngor i lywodraethau ac eraill ar faterion yn ymwneud â phobl yn gweithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym hefyd yn cyflawni rhai comisiynau rhyngwladol i ehangu ein dealltwriaeth o reoleiddio ac i hyrwyddo diogelwch o ran mudoledd y gweithlu iechyd a gofal. Rydym yn ymroddedig i fod yn annibynnol, diduedd, teg, hygyrch a chyson.

Ceir rhagor o wybodaeth am ein gwaith a dull o weithredu ar www.professionalstandards.org.uk.

## Ein hamcanion

Mae'r Awdurdod yn ceisio hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles cleifion ac aelodau eraill o'r cyhoedd ac i fod yn llais cryf, annibynnol ar gyfer cleifion wrth reoleiddio gweithwyr iechyd ledled y Deyrnas Unedig.

## Ein gwerthoedd

Mae ein gwerthoedd yn creu fframwaith i'n penderfyniadau. Maent yn ganolog i bwy ydym a sut yr hoffem i'n partneriaid ein gweld. Rydym yn ymroddedig i fod:

- Â ffocws ar les y cyhoedd
- Yn annibynnol
- Yn deg
- Yn dryloyw
- Yn gymesur.

---

[1] Roedd yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael ei adnabod yn flaenorol fel y Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd.

[2] Awdurdod Safonau Proffesiynol. 2015. Rheoleiddio cyffyrddiad cywir. Ar gael o: www.professionalstandards.org.uk/what-we-do/improving-regulation/right-touch-regulation

## Rheoleiddio cyffyrddiad cywir

Golyga rheoleiddio cyffyrddiad cywir edrych o hyd ar ba risg rydym yn ceisio ei rheoleiddio, bod yn gymesur a thargedig o ran rheoleiddio'r risg honno neu ganfod dulliau eraill heblaw rheoleiddio i hyrwyddo arfer da a gofal iechyd o ansawdd uchel. Golyga rheoleiddio cyffyrddiad cywir ddefnyddio’r isafswm o rym rheoleiddiol sydd ei angen i gyflawni’r canlyniad a ddeisyfir.

Mae’r cynigion a gynhwysir yn yr ymgynghoriad hwn yn seiliedig ar yr egwyddorion rheoleiddio cyffyrddiad cywir a amlinellir isod:

- Nodi’r broblem cyn y datrysiad
- Meintoli’r risgiau
- Mynd mor agos at y broblem â phosibl
- Canolbwyntio ar y deilliant
- Defnyddio rheoleiddio ble fo angen yn unig
- Ei gadw’n syml
- Gwirio ar gyfer canlyniadau anfwriadol
- Adolygu ac ymateb i newid.

# Cynnwys

Rhagair y Prif Weithredwr ....5
1. Adolygu perfformiad rheolyddion ....6
2. Y Safonau cyfredol....9
3. Beth ddylai'r Safonau gynnwys? ....11
4. Sut y cyflwynir y Safonau: dau ddewis ....21
5. Mesuriad ....25
6. Asesiad o effaith y cynigion ....27
7. Cwestiynau ymgynghori....29
8. Ein proses ymgynghori ....33
Atodiad A – Y Safonau Rheoleiddio Da ....34
Atodiad B – Safonau wedi eu halinio yn ôl egwyddor ....36

# Rhagair y Prif Weithredwr

Rydyn ni wedi bod yn goruchwylio perfformiad y rheolyddion ers dros ddeng mlynedd. Un o'r offer allweddol yr ydym wedi defnyddio yn yr amser hwnnw fu ein Safonau Rheoleiddio Da (y Safonau). Fe ddefnyddiom y rhain i weithio gyda'r rheolyddion i'w helpu i ddatblygu a gwella, a rhaid i ni herio ein hunain i wneud yr un peth. Y llynedd fe gyflwynom broses adolygu perfformiad newydd ac rydym yn credu mai dyma'r amser i adolygu'r Safonau.

Y Safonau yw ein sail ar gyfer beirniadu'r perfformiad y rheolyddion. Bwriedir iddynt nodi allbynnau allweddol rheoleiddio da. Nid ydym yn rhagnodi sut ddylai'r rheolyddion fynd ati i fodloni'r Safonau hyn oherwydd rydym yn cydnabod eu bod yn gweithio mewn gwahanol gyd-destunau a gyda lefelau gwahanol o risg. Yn y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld bod y rhan fwyaf o'r rheolyddion wedi bodloni'r rhan fwyaf o'r Safonau ac mae hyn yn dangos, ar y cyfan, eu bod wedi ymgymryd â nifer o newidiadau a heriau dros y nifer o flynyddoedd diwethaf.

Mae ein cylch gorchwyl statudol yn gofyn i ni adrodd yn flynyddol gyda'n barn ar sut mae pob un o'r rheolyddion a oruchwylir gennym wedi cydymffurfio gyda'i ddyletswyddau ei hun i hyrwyddo diogelwch a llesiant cleifion a defnyddwyr gwasanaeth. Nod ein hadroddiad yw hysbysu Senedd a'r cyhoedd ac rydym yn gobeithio y byddant hefyd yn creu gwelliannau o ran perfformiad y rheolyddion.

Mae'r Safonau yn sefydlu deilliannau rheoleiddio da, yn ogystal â sut mae rheoleiddio da yn hyrwyddo a diogelu'r cyhoedd. Gan mai diogelu cleifion yw'r brif nod a sefydlwyd yn ein statud, mae'r Safonau cyfredol wedi eu cynllunio i ffocysu ar y meysydd hynny o waith y rheolyddion sy'n effeithio fwyaf ar wella deilliannau amddiffyn cleifion. Yn yr ymgynghoriad hwn, hoffem glywed gan unrhyw un sydd â barn am y ffordd orau i gynllunio ein Safonau fel y gall rheoleiddio da arwain at wella deilliannau wrth ddiogelu'r cyhoedd.

Nod y ddogfen hon yw disgrifio rhai o'r problemau gyda'r Safonau cyfredol i ni, y rheolyddion a'n rhanddeiliaid eraill. Rydym yn gofyn i chi ystyried os ydych chi'n meddwl y gellid gwella'r Safonau trwy wneud addasiadau i'r Safonau cyfredol, fel cymryd ffocws oddi ar rhai meysydd ac archwilio eraill mewn mwy o fanylder. Rydym hefyd yn gofyn i chi ystyried a all fod gwerth mewn archwilio gwahanol ymagwedd yn gyfan gwbl a chreu system yn seiliedig ar egwyddorion yn hytrach na swyddogaethau.

Rydym eisoes wedi siarad gyda nifer o randdeiliaid, yn cynnwys y rheolyddion, sydd agosaf at ein gwaith. Rydym wedi trafod gyda nhw sut allem ni wneud ein Safonau yn offeryn mwy effeithiol, â ffocws a defnyddiol ar gyfer asesu perfformiad y rheolyddion ac ystyried eu sylwadau ac awgrymiadau. Rydym yn ddiolchgar am y cyfraniadau a dderbyniwyd, mae'r papur ymgynghori hwn wedi ei wella o ganlyniad.



Harry Cayton

Prif Weithredwr

# 1. Adolygu perfformiad rheolyddion

### Ein rôl a beth sydd ynghlwm â hyn

1.1 Sefydlwyd yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (yr Awdurdod) ar 1 Rhagfyr 2012 gan gymryd cyfrifoldeb dros swyddogaethau'r Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd. Rydym yn gorff annibynnol yn y Deyrnas Unedig. Sefydlir ein rôl a dyletswyddau yn y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2002. Rydym yn goruchwylio gwaith y naw rheolydd statudol o broffesiynau gofal iechyd:

- **Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol** (GCC) sy'n rheoleiddio ceiropractyddion yn y Deyrnas Unedig
- **Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol** (GDC) sy'n rheoleiddio deintyddion, nyrsys deintyddol, technegwyr deintyddol, hylenyddion deintyddol, therapyddion deintyddol, technegwyr deintyddol clinigol a therapyddion orthodonteg yn y Deyrnas Unedig
- **Y Cyngor Meddygol Cyffredinol** (GMC) sy'n rheoleiddio meddygon yn y Deyrnas Unedig
- **Y Cyngor Optegol Cyffredinol** (GOC) sy'n rheoleiddio optometryddion, optegwyr cymwysedig ac optegwyr sy'n fyfyrwyr yn y Deyrnas Unedig
- **Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol** (GOsC) sy'n rheoleiddio meddygon esgyrn yn y Deyrnas Unedig
- **Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol** (GPhC) sy'n rheoleiddio fferyllwyr ym Mhrydain Fawr
- **Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal** (HCPC) sy'n rheoleiddio therapyddion celf, gwyddonwyr biofeddygol, ciropodyddion/podiatryddion, gwyddonwyr clinigol, dietegwyr, cyflenwyr teclynnau clyw, therapyddion galwedigaethol, ymarferwyr adrannau llawdriniaeth, parafeddygon, ffisiotherapyddion, ymarferwyr seicolegol, prosthetyddion ac orthopyddion, radiograffwyr, a therapyddion lleferydd a llais yn y Deyrnas Unedig, a gweithwyr cymdeithasol yn Lloegr
- **Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth** (NMC) sy'n rheoleiddio nyrsys a bydwragedd yn y Deyrnas Unedig
- **Cymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon** (PSNI) sy'n rheiddio fferyllwyr yng Ngogledd Iwerddon.

1.2 Un o'n rolau allweddol yw adrodd yn flynyddol i'r Senedd ar berfformiad pob un o'r rheolyddion iechyd a gofal a oruchwylir gennym. Gofynnir i ni ddatgan i ba raddau mae pob corff rheoleiddio wedi cydymffurfio ag unrhyw ddyletswydd a osodwyd arno i hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles cleifion.

1.3 Er mwyn cydymffurfio gyda'r ddyletswydd hon, rydym yn cyflawni adolygiadau perfformiad blynyddol o bob rheolydd.

1.4 I hysbysu ein hasesiad o berfformiad y rheolyddion, rydym wedi datblygu Safonau Rheoleiddio Da (y Safonau) sy'n sefydlu'r deilliannau yr ydym yn disgwyl i bob rheolydd gyflawni. Cafodd y rhain eu hadolygu ddiwethaf yn 2010. Cyflwynir y Safonau hynny yn Atodiad A.

1.5 Yn yr adolygiad perfformiad rydym yn ceisio nodi cryfderau a meysydd pryder ym mherfformiad y rheolyddion ac asesu i ba raddau maent yn bodloni'r safonau ac, os yn briodol, yn argymell newidiadau. Rydym hefyd yn anelu i hysbysu'r Senedd a'r cyhoedd ynghylch pa mor dda mae’r rheolyddion yn diogelu’r cyhoedd a hyrwyddo hyder mewn gweithwyr iechyd a gofal a’r system reoleiddio.

### Y broses o adolygu perfformiad

1.6 Fe adolygom ein proses ar gyfer adolygu perfformiad rheolyddion yn 2014/15 a chyflwyno proses newydd yn Ionawr 2016. Dan hyn, rydym yn edrych ar y data a ddarparwyd gan y rheolyddion, gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd gan y rheolyddion, gwybodaeth o'n gwaith arall (er enghraifft, craffu ar benderfyniadau addasrwydd i ymarfer terfynol) a gan randdeiliaid eraill. Gallwn ychwanegu at hynny, os yn briodol, trwy geisio rhagor o wybodaeth gan y rheolyddion neu trwy archwilio eu prosesau.

1.7 Wedi ystyried yr holl wybodaeth, rydym yn dod i benderfyniad ar i ba raddau mae'r rheolydd wedi bodloni pob un o'r Safonau a pharatoi adroddiad yn cyflwyno ein casgliadau.[3]

### Yr ymgynghoriad hwn

1.8 Wedi adolygu'r broses adolygu perfformiad, rydym wedi penderfynu adolygu'r Safonau. Hoffem sicrhau eu bod yn parhau i gipio'r deilliannau a nodweddion allweddol y byddem yn eu disgwyl gan reolyddion proffesiynol.

1.9 Rydym wedi mabwysiadu ymagwedd gam wrth gam i'r ymgynghoriad hwn i sicrhau bod sawl cyfle i randdeiliaid ymgysylltu gyda datblygiad y Safonau. Rhagwelwn y bydd hyn yn caniatáu ar gyfer gwella profi a choethi unrhyw Safonau newydd.

1.10 Rhwng Hydref a Rhagfyr 2016, fe gyflawnom ymarfer ymgysylltu cyn ymgynghori. Yn ystod y cyfnod hwn, fe wahoddom randdeiliaid, yn cynnwys y rheolyddion, i gwrdd â ni i drafod y manteision a phroblemau gyda'r Safonau cyfredol, pa feysydd o berfformiad y rheolyddion y dylem fod yn craffu arnynt (ac yn parhau i graffu arnynt) ac a oeddem yn mynd ati i adolygu'r Safonau yn y ffordd iawn. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r holl unigolion a sefydliadau a fu'n cwrdd â ni ac a ddarparodd sylwadau ysgrifenedig a hoffem fynegi ein diolch i'r rhai a fu ar gael i gynorthwyo. Rydym wedi dadansoddi'r ymatebion a sylwadau a dderbyniwyd ac wedi eu hystyried cyn paratoi'r papur ymgynghori hwn.

1.11 Yn y papur ymgynghori hwn, rydym yn gofyn am farnau ehangach ynghylch y meysydd y dylai'r Safonau gwmpasu ac ynghylch sut ddylid mynegi'r Safonau. Bydd y dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyntaf yn hysbysu ail bapur ymgynghoriad cyhoeddus. Bydd yr ail bapur ymgynghori yn sefydlu'r Safonau diwygiedig. Rhagwelwn y bydd yr ail ymgynghoriad yn digwydd yn ystod y Gaeaf 2017. Bwriadwn setlo ein cynigion terfynol yn gynnar yn 2018 i'w mabwysiadu yn y cylch adolygiad perfformiad yn cychwyn yn 2019 a ddylai roi digon o amser i'r rheolyddion addasu i unrhyw newidiadau.

1.12 Croesawn ymatebion i'r cwestiynau a gyflwynir yn y papur ymgynghori hwn gan yr holl randdeiliaid. Anfonwch nhw at Teena Chowdhury

[3] Mae copïau o'n hadroddiadau adolygiad perfformiad diweddaraf ar gael ar ein gwefan: www.professionalstandards.org.uk/what-we-do/our-work-with-regulators/read-performance-reviews

(teena.chowdhury@professionalstandards.org.uk) or via www.surveymonkey.co.uk/r/PSA_Standards_Consultation_2017 yn ddim hwyrach na **17 Mehefin 2017**.

# 2. Y Safonau cyfredol

2.1 Yn ein hymgynghoriad yn 2007 fe ddatblygom y Safonau a ddefnyddir i asesu pob rheolydd yn eu herbyn. Cafodd y rhain eu diweddaru'n sylweddol yn 2010. Mae’r Safonau yn cwmpasu pob un o swyddogaethau statudol y rheolyddion, ac yn disgrifio canlyniadau rheoleiddio da ar gyfer pob un o’r swyddogaethau hyn. Maent hefyd yn sefydlu sut mae rheoleiddio da yn hyrwyddo a diogelu iechyd, diogelwch a lles cleifion, defnyddwyr gwasanaeth ac aelodau eraill o’r cyhoedd, a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn. Dyma yw conglfeini ein mecanweithiau ar gyfer sicrhau ein hunain bod rheolydd yn perfformio'n effeithiol.

2.2 Rydym wedi gwneud rhai newidiadau i fformat a thestun pob un o’r Safonau hyn i’w gwneud yn fwy eglur, ond nid ydym wedi addasu’r Safonau eu hunain ers 2010. Rydym nawr yn ystyried os yw'r Safonau, ar eu ffurf bresennol, yn dal yn ffordd ddilys ac effeithiol o asesu gwaith y rheolyddion.

2.3 Mae'r Safonau yn cwmpasu pedair o brif swyddogaethau'r rheolyddion. Sef:

- Arweiniad a safonau – mae'r Safonau yn gofyn i'r rheolyddion gyhoeddi a hyrwyddo safonau ar gyfer ymddygiad a chymhwyster sy'n adlewyrchu'r arferion a deddfwriaeth ddiweddaraf ac yn taclo anghenion amrywiol cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd

- Addysg a hyfforddiant – mae'r Safonau yn gofyn bod y rheolyddion yn sefydlu safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant sy'n gysylltiedig i'r safonau ar gyfer cofrestryddion ac yn blaenoriaethu gofal cleifion ac i sicrhau bod yna broses gymesur ar gyfer sicrhau ansawdd rhaglenni addysg a bod gwybodaeth a gymeradwyir am raglenni ar gael i'r cyhoedd

- Cofrestru – mae'r Safonau yn gofyn bod gan y rheolyddion brosesau sy'n sicrhau mai dim ond gweithwyr proffesiynol sy'n bodloni safonau'r rheolyddion sy'n cael cofrestru. Dylai’r gofrestr gynnwys cofnod o unrhyw weithredu yn erbyn gweithiwr cofrestredig sy’n cyfyngu ar ei hawl i ymarfer

- Addasrwydd i ymarfer – mae'r Safonau yn gofyn i reolyddion gael systemau priodol a hygyrch ar gyfer addasu ei swyddogaeth addasrwydd i ymarfer yn cynnwys asesiadau risg, prydlondeb gwaith achos, ansawdd penderfyniadau a'r angen i ddargadw gwybodaeth yn ddiogel.

2.4 Mae'r Safonau wedi bod yn weithredol ar gyfer y saith cylch adolygiad perfformiad diwethaf, ac er eu bod wedi ysgogi gwelliannau mewn rhai meysydd, nid ydym yn argyhoeddedig eu bod wedi llwyddo i ddilyn newidiadau mewn blaenoriaethau a risgiau mae rheolyddion yn wynebu. Maent yn adlewyrchu materion oedd yn flaenoriaeth ar y pryd, ond fe fu nifer o ddatblygiadau rheoleiddiol a pholisi ers y tro diwethaf iddynt gael eu hadolygu. Mae disgwyliadau o ran rheoleiddio a syniadau am reoleiddio da, gan gynnwys ein rhai ein hunain, wedi datblygu ac mae'n bwysig bod y Safonau yn cadw i fyny gyda syniadau presennol.

2.5 Mae hefyd yn nodedig bod y rheolyddion ar hyn o bryd yn bodloni'r mwyafrif llethol o’r Safonau. Croesewir hyn, ond mae'r Awdurdod yn teimlo bod angen gosod y Safonau ar y lefel briodol.

2.6 Wrth ymgynghori ar ddiwygiadau i'r broses adolygu perfformiad yn 2015/16, soniodd nifer o'n rhanddeiliaid bod angen adolygu'r Safonau hefyd. Cytunodd ein Bwrdd y dylid gwneud hyn yn hwyrach.

2.7 Yn ein trafodaethau cychwynnol, fe nodom y pwyntiau cyffredinol canlynol:

- Gallai'r Safonau ffocysu mwy ar ddeilliannau mewn sawl maes, a ffocysu'n llai ar y broses
- Mae'r Safonau'n ailadroddus mewn rhai meysydd a gellid eu symleiddio
- Mae gan rai Safonau werth cyfyngedig ar gyfer rhai rheolyddion, ond maent yn fwy arwyddocaol i eraill
- Gellid adolygu'r Safonau o ganlyniad i *Adroddiad Ymchwiliad Francis* i bwysleisio rhannu gwybodaeth a'r angen i hyrwyddo proffesiynoldeb.

### Ein syniadau cychwynnol

2.8 O ganlyniad i'r trafodaethau hyn, rydym wedi sefydlu rhai barnau cychwynnol ar sut ddylid datblygu'r Safonau. Sef:

- Diben ein hasesiad o'r Safonau yw hysbysu ein hadroddiadau i'r Senedd ar berfformiad y rheolyddion. Mae hynny'n awgrymu y dylai ein Safonau barhau i ffocysu ar weithgareddau craidd y rheolyddion
- Hoffem osgoi newidiadau i'r broses adolygu perfformiad oni bai eu bod yn angenrheidiol ac mae'n bwysig y gellir mesur y Safonau dan y broses honno
- Dylai'r Safonau a'r broses ar gyfer eu hasesu ystyried yr egwyddor cyffyrddiad cywir: cadw pethau'n syml.

2.9 Mae'r barnau hyn yn hysbysu ein hymagwedd i'r ymgynghoriad hwn. Rydym nawr yn gofyn am farnau ar sut ddylid adolygu'r Safonau hyn ac yn archwilio hyn mewn dau gam.

2.10 Yn gyntaf, yn adran 3, rydym yn ystyried beth ddylid ei gynnwys dan y Safonau ac yn gofyn a ddylid cynnwys meysydd newydd a p'un a ddylid gollwng rhai.

2.11 Yn adran 4, rydym yn edrych ar ddau opsiwn i fynegi'r Safonau. Mae'r cyntaf yn dargadw'r fframwaith presennol ble mae'r Safonau wedi eu grwpio yn ôl swyddogaethau rheoleiddiol. Mae'r ail yn ymwneud â mabwysiadu fframwaith gwahanol yn seiliedig ar egwyddorion. Dylai'r ddau allu darparu ar gyfer addasiadau i'r Safonau yn deillio o benderfyniadau a wneir ar y cynigion yn adran 3.

# 3. Beth ddylai'r Safonau gynnwys?

3.1 Yn yr adran hon, gofynnwn pa feysydd o waith y rheolyddion a ddylid eu cynnwys yn y Safonau. Credwn fod dau gwestiwn allweddol y dylid eu hystyried:

- P'un a yw'r Safonau yn canolbwyntio ar weithgareddau craidd y rheolyddion ar gyfer amddiffyn y cyhoedd. Archwiliwn hyn ym mharagraffau 3.2-3.25
- P'un a oes angen newidiadau i'r modd mae'r Safonau yn berthnasol i'r gweithgareddau craidd hynny. Rydym yn sefydlu hyn ym mharagraffau 3.26-3.49.

**Beth yw gweithgareddau craidd y rheolyddion y dylai'r Safonau eu cwmpasu?**

3.2 Yma, rydym yn nodi chwe gweithgaredd y gellir eu hystyried fel gweithgareddau craidd y rheolyddion ar gyfer amddiffyn y cyhoedd. Rydym yn gwahodd sylwadau ar a ddylai'r Safonau gwmpasu pob un o'r gweithgareddau craidd hyn. Rydym hefyd yn gwahodd sylwadau cyffredinol ynghylch pa agweddau o berfformiad y rheolyddion parthed y gweithgareddau craidd hyn y dylai'r Safonau gwmpasu.

***Safonau a chanllaw proffesiynol***

3.3 Ar hyn o bryd mae'r Safonau yn y maes hwn yn gofyn i'r rheolyddion gyhoeddi a hyrwyddo safonau ar gyfer ymddygiad a chymhwyster sy'n disgrifio'r safonau ar gyfer ymarfer diogel ac effeithiol yn glir. Maent hefyd yn gofyn i'r rheolyddion sicrhau fod canllawiau yn blaenoriaethu diogelwch, yn helpu unigolion cofrestredig i weithredu safonau'r rheolydd, ac yn delio â'r materion presennol ac anghenion amrywiol y cyhoedd.

3.4 Credwn y dylai'r Safonau barhau i gwmpasu'r maes hwn gan fod hyn yn un o rolau craidd y rheolyddion. Efallai y bydd angen newidiadau, er enghraifft trwy leihau neu gynyddu'r nifer o Safonau yn cwmpasu'r maes hwn a diweddaru'r Safonau i sicrhau eu bod yn gofyn i'r rheolydd gyhoeddi a hyrwyddo safonau ar gyfer proffesiynoldeb, gonestrwydd a thryloywder.

*Cwestiwn 1(a): A ddylai'r Safonau gwmpasu perfformiad y rheolyddion parthed Safonau a chanllaw?*

*Cwestiwn 1(b): Pa agweddau o waith yn gysylltiedig i osod safonau a chanllaw ar gyfer cofrestryddion ddylai'r Safonau ganolbwyntio arnynt?*

***Addysg a hyfforddiant***

3.5 Mae'r Safonau ar gyfer Addysg a Hyfforddiant ar hyn o bryd yn gofyn bod safonau addysg a hyfforddiant wedi eu cysylltu i'r safonau ar gyfer cofrestryddion ac yn blaenoriaethu diogelwch cleifion a gofal ble mae'r claf yn ganolog. Dylai'r rheolyddion sicrhau bod yna broses gymesur ar gyfer sicrwydd ansawdd o raglenni addysg er mwyn i'r cyhoedd allu cael sicrwydd fod darparwyr addysg yn darparu'r sgiliau a gwybodaeth y mae myfyrwyr, hyfforddeion a gweithwyr proffesiynol eu hangen i ymarfer yn ddiogel ac effeithiol a bod gwybodaeth am raglenni cymeradwy ar gael i'r cyhoedd.

3.6 Mae hon yn rôl graidd ar gyfer rheolyddion a dylai'r Safonau barhau i ddarparu trosolwg i waith y rheolyddion i sicrhau ansawdd rhaglenni addysg. Credwn y dylai hyn nawr ffocysu ar y rheolydd yn cael dulliau i sicrhau ei hun bod deilliannau dysgu gofynnol ar gyfer cofrestru wedi eu gosod ac asesu'n briodol. Dylai hyn fod yn gyson gyda'r dull a awgrymwyd gennym yn *Regulation rethought.*[4]

3.7 Efallai y byddai'n werth edrych hefyd ar pa mor deg yw'r deilliannau addysg neu wneud defnydd o adborth gan fyfyrwyr a hyfforddeion i ysgogi gwelliannau diogelwch i gleifion. Trafodwn hyn yn ddiweddarach yn y papur hwn – gweler paragraffau 3.28-3.30. Mae ein tîm polisi yn datblygu ei farnau ar addysg a hyfforddiant yn rhan o'i waith ar ddyfodol rheoleiddio proffesiynol a bydd hyn hefyd yn hysbysu ein hadolygiad o'r Safonau.

*Cwestiwn 2a): A ddylai'r Safonau gwmpasu perfformiad y rheolyddion parthed addysg a hyfforddiant fel y sefydlwyd yn y cynigion hyn?*

*Cwestiwn 2b): Pa agweddau o waith yn gysylltiedig i addysg a hyfforddi ddylai'r Safonau ganolbwyntio arnynt?*

### *Addasrwydd i ymarfer parhaus*

3.8 Ar hyn o bryd mae gennym un safon parthed addasrwydd i ymarfer parhaus. Mae hyn yn gofyn bod gan reolydd naill ai system ail ddilysu neu ddatblygiad proffesiynol parhaus ar waith sy'n galluogi cofrestryddion i gynnal y safonau gofynnol i barhau i fod yn addas i ymarfer.

3.9 Ers cyflwyno'r Safon honno, rydym wedi cyhoeddi ein canllaw ar rôl rheoleiddio proffesiynol wrth gefnogi cofrestryddion i arddangos eu bod yn addas i ymarfer trwy gydol eu bywydau fel ymarferwyr.[5] Mae'r rheolyddion hefyd wedi bod yn adolygu ac ehangu eu syniadaeth yn y maes hwn. Efallai y byddai'n briodol ehangu'r Safon i ofyn i reolyddion ddefnyddio asesiad o'r risgiau a gyflwynir gan y proffesiwn wrth gynllunio eu gofynion yn y maes hwn. Gallai hefyd gynnwys ystyriaeth o a oes mesurau perfformiad priodol ar waith yn ogystal â phrosesau'r rheolydd ar gyfer porthi dysgu i'r cynllun i swyddogaethau rheoleiddiol eraill.

*Cwestiwn 3a): A ddylai'r Safonau gwmpasu cynllunio a darparu cynlluniau addasrwydd i ymarfer parhaus?*

*Cwestiwn 3b): Pa agweddau o'r cynllun a darpariaeth cynlluniau addasrwydd i ymarfer parhaus ddylai'r Safonau gynnwys?*

### *Cofrestriad*

3.10 Ar hyn o bryd mae'r Safonau yn gofyn bod gan y rheolyddion brosesau sy'n sicrhau mai dim ond gweithwyr proffesiynol sy'n bodloni eu safonau sy'n cael

---

4 *Regulation rethought*. Hydref 2016. Ar gael o: www.professionalstandards.org.uk/what-we-do/improving-regulation/right-touch-regulation

5 *Ymagwedd i sicrhau addasrwydd i ymarfer parhaus yn seiliedig ar egwyddorion rheoleiddio cyffyrddiad cywir.* Tachwedd 2012. Ar gael o: www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/publications/policy-advice/continuing-fitness-to-practise-based-on-right-touch-regulation-2012.pdf?sfvrsn=4

cofrestru. Dylai'r gofrestr gynnwys cofnod o unrhyw weithredu yn erbyn gweithiwr cofrestredig sy'n cyfyngu ar ei hawl i ymarfer.

3.11 Mae hyn yn swyddogaeth graidd arall i reolyddion y mae angen ei chynnwys, er y gall fod angen adolygu'r Safonau cyfredol. Er enghraifft, mae un o'r Safonau ar gyfer Cofrestru yn ffocysu ar wneud y gofrestr yn gyhoeddus. Efallai y byddai'n briodol i ni hefyd edrych ar gywirdeb, hygyrchedd ac eglurder y gofrestr.

*Cwestiwn 4a): A ddylai'r Safonau gwmpasu cyflawniad y swyddogaeth reoleiddio fel y sefydlwyd yn y cynigion hyn?*

*Cwestiwn 4b): Pa agweddau o'r swyddogaeth gofrestru ddylai'r Safonau ganolbwyntio arnynt?*

***Ymarfer anghyfreithiol neu heb gofrestru***

3.12 Mae gan y rhan fwyaf o reolyddion rôl o ran atal ymarfer anghyfreithlon gan unigolion. Mae hyn yn golygu naill ai unigolion sy'n cyflawni gweithgareddau cyfyngedig dan gyfraith heb yr hawl i'w gwneud, neu unigolion sy'n defnyddio teitl gwarchodedig heb yr hawl i wneud hynny. Mae hyn yn wahanol i rolau eraill y rheolyddion gan nad yw'n cynnwys pobl sydd o fewn y gymuned wedi ei rheoleiddio ac mae'n gofyn i'r rheolyddion wario arian yn mynd ar eu trywydd.

3.13 Mae sicrhau mai dim ond y rhai sy'n gymwys sy'n cyflawni gweithgareddau cyfyngedig ac nad yw'r cyhoedd yn cael eu camarwain am statws a chymwysterau unigolyn yn fater lles y cyhoedd.

3.14 Yn erbyn hyn, mae rhai wedi dadlau bod y broblem yn berthnasol i rai sy'n gweithio mewn practis preifat yn unig – mae gan y GIG ei systemau ei hun ar waith i reoli'r risg o unigolion yn camddefnyddio teitl gwarchodedig, er nad yw hyn yn lleihau'r angen i ddiogelu'r cyhoedd sy'n defnyddio gwasanaethau preifat. Awgrymwyd hefyd bod nifer o'r achosion yn deillio o ddiogelu buddiannau busnes y rhai sydd wedi cofrestru, yn hytrach nag unrhyw berygl gwirioneddol i'r cyhoedd. Gall hefyd fod yn anodd asesu perfformiad yn y maes hwn, yn arbennig gan fod angen i'r rheolyddion ymgysylltu gyda chyrff eraill yn aml, fel yr heddlu neu awdurdodau lleol, a bod y canlyniad yn dueddol o fod tu allan i reolaeth y rheolydd.

3.15 Efallai y byddai'n anodd dadlau na ddylai'r Awdurdod adrodd ar y maes hwn, gan eu bod yn swyddogaethau a roddir i reolyddion trwy statud ac nid oes proses arall ar gael i ddelio â'r risgiau hyn. Fodd bynnag, rydym yn ceisio barnau ar i ba raddau ddylai hyn fod yn flaenoriaeth i'r Awdurdod.

3.16 Pe byddai'r Awdurdod yn parhau i fonitro'r maes hwn, gallai'r Safonau ffocysu ar:

- P'un a oes gan y rheolydd ddulliau priodol ar gyfer nodi'r achosion hynny sy'n cyflwyno risg o niwed i'r cyhoedd
- Cymesuredd gwneud penderfyniadau yn unol ag asesiad y rheolyddion o risg
- Pa mor effeithiol mae'r rheolydd yn ymgysylltu gydag awdurdodau eraill perthnasol.

*Cwestiwn 5a): A ddylai'r Awdurdod barhau i fonitro gweithgareddau rheolyddion i atal ymarfer anghyfreithiol neu heb gofrestru a pha lefel o flaenoriaeth a ddylid rhoi i'r gwaith hwn?*

*Cwestiwn 5b): Os dylai, a ydych chi'n cytuno y dylai'r Safon(au) fod yn gyfyngedig i'r meysydd a nodwyd gennym uchod?*

*Cwestiwn 5c): Yn gyffredinol, pa agweddau o waith yn gysylltiedig ag atal ymarfer anghyfreithlon neu heb gofrestru dylai'r Safonau ganolbwyntio arnynt?*

### *Addasrwydd i ymarfer*

3.17 Mae addasrwydd i ymarfer (h.y. ystyriaeth o gwynion a gwybodaeth yn ymwneud ag ymddygiad, cymhwyster neu iechyd cofrestrydd) yn faes arall o waith y rheolyddion. Ar hyn o bryd mae yna ddeg Safon yn y maes hwn allan o gyfanswm o 24, ac mae rhai o'n rhanddeiliaid wedi awgrymu bod hyn yn ormod o gymharu â swyddogaethau eraill, gyda'r awgrym y gallent fod yn ffocysu eu hymdrechion ar y maes gwaith hwn ar draul eraill. Nododd rhanddeiliaid eraill bod addasrwydd i ymarfer yn ganolog i ddehongliadau'r cyhoedd ynghylch effeithlonrwydd rheolydd, ac y dylem barhau i adrodd ar y maes hwn. Byddai newidiadau i'r Safonau hyn yn galw am resymoliad syml a diwygiadau ehangach. Gallai gynnwys gollwng rhai Safonau ac ychwanegu Safonau newydd. Rydym yn nodi manylion pellach am hyn isod.

3.18 Bydd prosiect dan arweiniad y tîm polisi ar Addasrwydd i Ymarfer yn y Dyfodol yn profi ein syniadau yn y maes hwn ac yn sefydlu safbwynt clir i sicrhau bod unrhyw adolygiad o'r Safonau yn cyd-fynd â *Regulation rethought*, a gyda'r syniadau mwyaf cyfredol o ran addasrwydd i ymarfer yn gyffredinol.

*Cwestiwn 6a): A ddylai'r Safonau gwmpasu addasrwydd i ymarfer?*

*Cwestiwn 6b): Pa agwedd o weithgareddau yn gysylltiedig i addasrwydd i ymarfer dylai'r Safonau ganolbwyntio arnynt?*

### *Llywodraethu*

3.19 Wrth sôn am lywodraethu, golygwn y trefniadau sydd gan y rheolydd ar gyfer goruchwylio rheoli prosesau gan ei adran weithredol ac edrych ar faterion strategol ehangach, fel cyllid a risg. Credwn hefyd y dylai gwmpasu pa mor annibynnol yw Cyngor o fuddiannau sy'n gwrthdaro. Mae llywodraethu da yn allweddol, yn y tymor hir, i effeithiolrwydd sefydliad a hyder y cyhoedd ynddo.

3.20 Hyd yn hyn, nid yw'r Awdurdod wedi cynnwys llywodraethu yn benodol yn ei Safonau. Rydym wedi bod o'r farn nad yw llywodraethu ynddo ei hun yn ganlyniad, yn hytrach mai canlyniad llywodraethu da yw perfformiad da. Fodd bynnag, mae'n nodedig bod y mwyafrif o Adolygiadau Arbennig mae'r Awdurdod wedi eu cyflawni yn y Deyrnas Unedig wedi deillio o fethiannau llywodraethu.

3.21 Yn ein hymgynghoriad ar y broses adolygu perfformiad yn 2015, fe gynhigiom Safon newydd bosibl yn ymwneud â risg rheoleiddio ac yn ffocysu ar effeithlonrwydd rheolaeth y rheolydd o risg ac adnoddau, a sut mae'n sicrhau y gallai ei Gyngor ddarparu trosolwg effeithiol o'r adran weithredol. Yn dilyn yr ymgynghoriad hwnnw, penderfynodd yr Awdurdod beidio cyflwyno'r Safon hon

yn ystod y cam hwnnw. Er bod y rhan fwyaf o ymatebwyr wedi cytuno y dylai'r Awdurdod ystyried trefniadau llywodraethu a rheoli risg, nid oedd cytundeb o ran a oedd yn briodol i gyflwyno Safon newydd.

3.22 Mae'r Awdurdod, i raddau, yn gallu defnyddio ei graffu o weithgareddau rheoleiddio unigol i nodi pryderon llywodraethu posibl. Mae'r broses gyfredol yn cynnwys ystyriaeth fanwl o bapurau Cyngor y rheolyddion ac arsylwi rheolaidd o drafodaethau yng nghyfarfodydd y Cynghorau. Mae hyn yn hysbysu ein hasesiad parhaus o berfformiad y rheolyddion. Fodd bynnag, nid yw'r Safonau yn ein galluogi i gipio pryderon bod diffyg effeithlonrwydd gan Gynghorau yn dechrau effeithio ar berfformiad.

3.23 Ein barn ar hyn o bryd yw bod angen ystyried asesu os yw prosesau llywodraethu rheolydd yn galluogi'r Cyngor i gael trosolwg effeithiol o waith y rheolydd, bod y Cyngor yn darparu her a chraffu priodol ac yn gweithredu'n annibynnol. Credwn y dylai safonau gynnwys yr elfennau canlynol:

- Annibyniaeth amlwg y rheolydd o gofrestryddion, llywodraeth a buddiannau arbennig eraill
- Tryloywder ei brosesau (gan allu edrych ar nifer ohonynt fel rhan o'n hadolygiad o agweddau unigol o waith y rheolydd)
- Safon a digonolrwydd prosesau ar gyfer darparu gwybodaeth i'r cyngor i'w alluogi i fonitro perfformiad a chydymffurfiad
- Effeithlonrwydd y Cyngor wrth fynd i'r afael â'r wybodaeth honno.

3.24 Byddem yn disgwyl y byddai adolygiad ffurfiol o lywodraethu yn debygol o gael ei ysgogi gan dystiolaeth nad yw prosesau gweithredol yn gweithio'n dda a thrwy fethiant ymddangosiadol y Cyngor i'w taclo'n briodol.

3.25 Rydym yn croesawu barnau ein rhanddeiliaid cyn gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol ynghylch p'un a oes angen safonau newydd yn cwmpasu llywodraethu.

*Cwestiwn 7a): A ddylai'r Safonau gwmpasu gwaith llywodraethu'r rheolyddion?*

*Cwestiwn 7b): Pa agwedd o'r gweithgareddau yn gysylltiedig â llywodraethu dylai'r Safonau ganolbwyntio arnynt?*

*Cwestiwn 7c): A oes gennych gwestiynau eraill am ein hymagwedd i lywodraethu?*

### Newidiadau i berthnasedd y Safonau i weithgareddau craidd

3.26 Nawr rydym am ystyried meysydd penodol ble gallai fod yn fuddiol i ystyried Safonau newydd.

#### *Mabwysiadu Safonau newydd*

3.27 Yn dilyn ein hymgysylltu gyda rhanddeiliaid, fe nodom nifer o feysydd ble gellid cyflwyno Safonau newydd.

*Addysg*

3.28 Nododd *Adroddiad Ymchwiliad Francis*[6] bod systemau addysg a hyfforddiant meddygol yn darparu cyfle i wella diogelwch cleifion. Argymhellodd y dylai myfyrwyr a hyfforddeion gael eu gosod mewn sefydliadau sy'n cydymffurfio gyda safonau sylfaenol yn unig ac y dylai'r cyrff sy'n gyfrifol am oruchwylio a rheoleiddio'r gweithgareddau hyn flaenoriaethu diogelwch eu cleifion. Argymhellodd hefyd y dylid cael mecanweithiau ar gyfer gwella tryloywder i sicrhau, er enghraifft, y dylai'r GMC geisio gwybodaeth gan fyfyrwyr a thiwtoriaid ar gydymffurfiad gydag isafswm safonau diogelwch ac i annog gonestrwydd ymysg hyfforddeion. Gallai fod yn fuddiol i archwilio sut mae hyn yn berthnasol ar draws yr holl reolyddion proffesiynol ac i ardystio hyn yn y Safonau.

3.29 Gallai cynnwys hyn yn benodol yn y Safonau arwain at ddatblygu mecanweithiau ar gyfer adborth fel bod y rheolyddion yn cymryd camau priodol ar wybodaeth gan fyfyrwyr, hyfforddeion a thiwtoriaid ynghylch safonau diogelwch i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth a bod y rheolydd yn sicrhau yr anogir tryloywder a gonestrwydd ymysg myfyrwyr a hyfforddeion.

*Cwestiwn 8) A ddylem gyflwyno Safon newydd sy'n gofyn i reolyddion gael mecanweithiau sy'n eu galluogi i gasglu gwybodaeth gan fyfyrwyr a thiwtoriaid ynghylch cydymffurfiad gydag isafswm safonau diogelwch?*

3.30 Mae'r Safonau cyfredol yn ffocysu ar broses sicrwydd ansawdd rheolydd ar gyfer ei raglenni addysg. Argymhellodd ein papur *Regulation rethought*[7] bod rheolyddion yn sicrhau bod eu ffocws ar asesu cadernid y prosesau ar gyfer gosod ac asesu'r deilliannau dysgu gofynnol ar gyfer cofrestru. Trwy archwilio ac asesu mae myfyriwr neu hyfforddai yn arddangos ei gymhwyster yn y proffesiwn, a thrwy hynny bod ganddo gymhwyster addas ar gyfer cofrestru. Byddai hyn yn gadael rheolyddion eraill a mecanweithiau sicrwydd ansawdd i ddelio gyda chwestiynau ehangach o reoli cyrsiau. Byddai rheolyddion yn parhau i weithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau addysg uwch a darparwyr hyfforddiant eraill i ddeall effaith anghenion y boblogaeth a gweithluoedd yn y dyfodol. Credwn y byddai newid ymagwedd o'r fath yn cynnig y potensial i sicrhau arbedion ac effeithiolrwydd o ran sut mae cofrestryddion yn profi eu haddasrwydd ar gyfer cofrestru, yn ogystal â lleihau'r baich reoleiddio ar sefydliadau addysg uwch.

---

[6] Archwiliodd yr adroddiad hwn pam na weithredwyd ar y problemau difrifol yn Ymddiriedolaeth GIG Canol Swydd Stafford yn fwy buan gan gyrff rheoleiddio oedd yn gweithredu ar y pryd. Adroddiad ar gael yn:
http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20150407084003/http://www.midstaffspublicinquiry.com/report

[7] Gweler troednodyn 5.

*Cwestiwn 9) A ddylem addasu geiriad y Safonau i ffocysu ar waith rheolyddion i sicrhau cadernid asesiadau dysgu?*

*Addasrwydd i ymarfer parhaus*

3.31 Ar hyn o bryd, mae gennym un Safon yn ymwneud ag addasrwydd i ymarfer parhaus ac mae'r Safon hon yn gofyn i reolyddion gael cynllun ar waith sy'n cwmpasu Datblygiad Proffesiynol Parhaus neu ail ddilysu yn unig. Mae hyn ar lefel uchel iawn ac nid yw'n rhoi llawer o fanylder ynghylch ein disgwyliadau o ystyried ymarfer presennol ac sy'n datblygu. Yn 2012,[8] fe wnaethom gyhoeddi ein canllaw ar rôl rheoleiddio proffesiynol wrth gefnogi cofrestryddion i arddangos eu bod yn addas i ymarfer trwy gydol eu bywydau fel ymarferwyr.

3.32 Mae nifer o'r rheolyddion wedi ystyried yr egwyddorion yn y papur hwnnw, ac wedi cyflawni eu hymchwil, ymgynghoriadau ac ymarferion ymgysylltu â rhanddeiliaid eu hunain i ddatblygu cynlluniau addasrwydd i ymarfer parhaus. Mae yna ddulliau amrywiol yn bodoli erbyn hyn.

3.33 Credwn y gellid datblygu'r Safon hon i annog rheolyddion i ddatblygu ac adolygu cynlluniau i sicrhau eu bod wedi eu cynllunio gydag ystyriaeth i'r risgiau a gyflwynir gan y proffesiwn, delio â'r risgiau hynny a'u bod yn cyflawni'r hyn a fwriadwyd mewn gwirionedd. Credwn hefyd y gallai canlyniadau'r adolygiadau hynny ddarparu dysgu ar gyfer swyddogaethau rheoleiddio eraill ac y dylai rheolyddion ddatblygu cynlluniau i gyflawni hyn.

*Cwestiwn 10) A ddylid ehangu Safon yn cwmpasu addasrwydd i ymarfer parhaus i gynnwys effeithlonrwydd y cynllun a phrosesau'r rheolydd ar gyfer defnyddio dysgu o'r cynllun i hysbysu swyddogaethau eraill?*

*Erlyn achosion addasrwydd i ymarfer*

3.34 Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae ein proses i archwilio penderfyniadau addasrwydd i ymarfer gan baneli wedi nodi achosion ble na chafwyd erlyniadau digonol neu ble na wnaethpwyd penderfyniadau digonol oherwydd diffygion wrth ddrafftio cyhuddiadau. Rhagwelodd y Llys Apêl yn *Ruscillo*[9] bod rôl y panel gwneud penderfyniadau terfynol yn cynnwys sicrhau bod yr achos wedi ei gyflwyno'n briodol gan y rheolydd ac y cyflwynwyd tystiolaeth berthnasol gerbron y panel. Nid yw'r Safonau yn cwmpasu'r rhan o brosesau addasrwydd i ymarfer rhwng penderfyniad archwilydd yr achos/Pwyllgor Ymchwilio a'r penderfyniad addasrwydd i ymarfer terfynol yn benodol. Gellid ystyried hyn i fod yn fwlch yn ein gwaith trosolwg gan yn aml yn ystod y cyfnod hwn y gwneir penderfyniadau allweddol ynghylch sut i ddrafftio'r cyhuddiadau a pha dystiolaeth a ddylid ei chyflwyno. Nid yw hyn yn amlwg ar bob adeg o'n harchwiliad o benderfyniadau addasrwydd i ymarfer terfynol.

3.35 Byddai datblygu Safon newydd yn sefydlu'n ddiamwys yr angen i'r rheolydd sicrhau y cyflwynir gwybodaeth ddigonol i benderfynyddion i'w galluogi i ddod i benderfyniadau cadarn ar y sail dystiolaethol gywir.

[8] "Ymagwedd i sicrhau addasrwydd i ymarfer parhaus yn seiliedig ar egwyddorion rheoleiddio cyffyrddiad cywir" http://www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/publications/policy-advice/continuing-fitness-to-practise-based-on-right-touch-regulation-2012.pdf?sfvrsn=4

[9] Ruscillo v CHRE a GMC [2004] EWCA Civ 1356

*Cwestiwn 11) A ddylem gyflwyno Safon sy'n cwmpasu'r gyfran o'r broses addasrwydd i ymarfer rhwng penderfyniad y Pwyllgor Ymchwilio/archwilydd achos a'r panel terfynol?*

*Mecanweithiau cydsyniol ar gyfer cwblhau achosion addasrwydd i ymarfer*

3.36 Ers cyflwyno'r Safonau, bu awydd cynyddol ymysg y rheolyddion a'r llunwyr polisi i ganfod mecanweithiau amgen ar gyfer cwblhau achosion addasrwydd i ymarfer. Mae nifer o'r rheolyddion wedi mabwysiadu prosesau ar gyfer dileu gwirfoddol, tor parhad, ymgymeriadau a phenderfyniadau panel cydsyniol. Yn 2013, fe gomisiynom ymchwil ledled y Deyrnas Unedig gyda'r cyhoedd ar y mater hwn.[10] Cafnu'r ymchwil bod yna gryn gefnogaeth ar gyfer y mecanweithiau amgen hyn, yn bennaf gan fod y gwrandawiadau yn achosi cymaint o straen i'r rhai sydd wedi cwyno. Fodd bynnag, roedd pryderon y gallai'r dewisiadau amgen hyn arwain at ymchwiliadau llai trylwyr, sancsiynau rhy drugarog, diffyg tryloywder, a cholli llais yr achwynwr yn y broses.

3.37 Mae ein trafodaethau gyda'r rheolyddion hynny sydd wedi ymgynghori ar brosesau newydd wedi arwain i ni argymell y dylid ystyried y mecanweithiau hyn dim ond os yw'r cofrestrydd wedi cyfaddef i'r ffeithiau ac i'r nam, wedi arddangos dealltwriaeth o ddifrifoldeb ei fethiannau, a bod yna dryloywder o ran y penderfyniadau a wnaethpwyd. O ystyried bod hyn yn ddatblygiad cynyddol bwysig, ac yn un mae'r Awdurdod yn ei gefnogi o ran egwyddor, bydd Safon newydd yn bwysig i'n galluogi i graffu ar ba mor effeithiol mae'r rheolyddion yn gweithredu'r mecanweithiau amgen mewn modd sy'n diogelu cleifion ac yn lleihau niwed, yn hyrwyddo safonau proffesiynol ac yn sicrhau ymddiriedaeth y cyhoedd.

*Cwestiwn 12) A ddylem gyflwyno Safon yn cwmpasu gweithrediad mecanweithiau cydsyniol ar gyfer dileu a phriodoldeb eu deilliannau?*

*Cydraddoldeb, amrywiaeth a thegwch*

3.38 Ar hyn o bryd, nid yw'r Safonau yn delio â sut mae'r rheolyddion yn taclo cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'r rhain yn ystyriaethau cymdeithasol pwysig ac rydym yn ymwybodol, yn ogystal, o fenter y Llywodraeth ar fudoledd cymdeithasol a gallu pobl o gefndiroedd difreintiedig i ymuno a sicrhau cynnydd mewn proffesiynau.

3.39 Mae rhai rheolyddion yn gwneud gwaith yn y maes hwn. Er enghraifft, comisiynodd y GMC adolygiadau annibynnol a nododd fod yna deilliannau gwahaniaethol ar gyfer graddedigion meddygol duon ac o leiafrifoedd ethnig a rhai rhyngwladol (o gymharu â'i gilydd ac o gymharu â graddedigion gwyn o'r Deyrnas Unedig) o ran addysg ac addasrwydd i ymarfer. Mae'r GPhC hefyd wedi cyflawni ymchwil a nododd bod myfyrwyr oedd yn uniaethu fel Du Affricanaidd yn perfformio'n arwyddocaol llai cystal na rhai grwpiau ethnig eraill hunan ddatganedig. Mae rhai o'r rheolyddion hyn wedi cyflawni ymchwil tebyg i archwilio'r mater ar gyfer eu poblogaeth eu hunain o unigolion cofrestredig. Credwn fod yna werth mawr i archwilio'r mater hwn gan y rheolyddion a nodi dulliau i gefnogi gwell dealltwriaeth. Credwn y dylem ystyried a oes angen cyflwyno safon yn cwmpasu hyn ar gyfer yr holl reolyddion.

[10] *Alternatives to hearings for fitness to practise cases – the public perspective*. Mai 2013. Ar gael o: www.professionalstandards.org.uk/publications/detail/alternatives-to-final-panel-hearings-for-fitness-to-practise-cases-the-public-perspective

3.40 Rydym yn cydnabod y gall fod heriau o ran monitro perfformiad yn y maes hwn. Ni all rheolyddion reoli lluniad cymdeithasol cofrestryddion posibl nac amlder y cwynion. Fodd bynnag, mae er lles y cyhoedd i gael mwy o amrywiaeth o ymarferwyr ar gael i'r cyhoedd ac ni ddylai prosesau rheolydd gyflwyno rhwystrau amhriodol i fynediad. Mae yna hefyd fater lles y cyhoedd o ran sicrhau bod y rheolyddion yn deg yn eu hymwneud â chofrestryddion a rhanddeiliaid eraill. Mae prosesau mwy teg yn arwain at well penderfyniadau.

3.41 Credwn, felly, y gall fod yn rhesymol cyflwyno Safonau yn disgwyl i reolyddion:

- Ddeall amrywiaeth eu poblogaeth o gofrestryddion a'r amgylchedd yn gyffredinol
- Sicrhau nad yw eu prosesau yn cyflwyno rhwystrau amhriodol nac yn creu anfantais fel arall i bobl gyda nodweddion gwarchodedig.

*Cwestiwn 13) A ddylem gyflwyno safonau yn cwmpasu cydraddoldeb, amrywiaeth a thegwch?*

***Rhesymoli'r Safonau – delio â dyblygiad***

3.42 Credwn y gallem wneud addasiadau syml i'r Safonau yn cwmpasu datblygiad safonau ac arweiniad i gofrestryddion a'r angen i wneud gwybodaeth yn hygyrch.

3.43 Mae yna bedair Safon yn ymwneud â sut mae'r rheolyddion yn datblygu safonau a chanllawiau i gofrestryddion:

- Wrth ddatblygu ac adolygu canllawiau a safonau, mae’r rheoleiddiwr yn cymryd sylw o farn a phrofiadau rhanddeiliaid, digwyddiadau allanol, datblygiadau mewn rheoleiddio ym mhedair gwlad y Deyrnas Unedig, Ewrop ac yn rhyngwladol, a dysgu o feysydd eraill gwaith y rheolyddion *(Safon Gyntaf ar gyfer Safonau a chanllaw)*
- Mae canllaw atodol yn helpu cofrestryddion i gymhwyso safonau cymhwyster ac ymddygiad y rheolyddion i faterion arbenigol neu benodol yn cynnwys delio ag anghenion amrywiol yn deillio o ofal ble mae cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn ganolog *(Ail Safon ar gyfer Safonau a chanllaw)*
- Wrth ddatblygu ac adolygu canllawiau a safonau, mae’r rheoleiddiwr yn cymryd sylw o farn a phrofiadau rhanddeiliaid, digwyddiadau allanol, datblygiadau mewn rheoleiddio ym mhedair gwlad y Deyrnas Unedig, Ewrop ac yn rhyngwladol, a dysgu o feysydd eraill gwaith y rheolyddion *(Trydedd Safon ar gyfer Safonau a chanllaw)*
- Mae safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant yn gysylltiedig i safonau ar gyfer unigolion cofrestredig. Maent yn blaenoriaethu diogelwch cleifion a defnyddwyr gwasanaeth a gofal sy'n canolbwyntio ar gleifion a defnyddwyr gwasanaeth. Dylai’r broses i adolygu neu ddatblygu safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant gynnwys barnau a phrofiadau rhanddeiliaid allweddol, digwyddiadau allanol a’r dysgu o’r broses sicrhau ansawdd *(Safon Gyntaf ar gyfer Addysg a hyfforddiant)*

3.44 Mae yna hefyd sawl Safon sy'n gofyn i'r rheolyddion sicrhau bod gwybodaeth yn hygyrch, gan gynnwys:

- Cyhoeddir y safonau a chanllaw yn defnyddio fformatau hygyrch. Mae gweithwyr cofrestredig, gweithwyr cofrestredig posibl, cyflogwyr, cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn gallu dod o hyd i'r safonau a chanllaw a gyhoeddwyd gan y rheoleiddiwr ac yn gallu dysgu am weithredu posibl os na ddilynir y safonau a'r canllaw. (*Pedwaredd Safon ar gyfer Safonau a chanllaw)*
- Mae cyflogwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd gwirio cofrestriad unigolyn cofrestredig. Gall cleifion a'r cyhoedd ganfod a gwirio cofrestriad unigolyn cofrestredig (*Pedwaredd Safon ar gyfer Cofrestru)*
- Mae gwybodaeth ar raglenni addysg a gymeradwyir a'r broses gymeradwyo ar gael i'r cyhoedd. (*Pedwaredd Safon ar gyfer Addysg a hyfforddiant)*
- Cyhoeddir pob penderfyniad terfynol, ac eithrio materion yn ymwneud ag iechyd nyrs, yn unol â'r ddeddfwriaeth a'u cyfathrebu i randdeiliaid perthnasol. (*Nawfed Safon ar gyfer Addasrwydd i ymarfer)*

3.45 Er bod y cysyniadau hyn o ddatblygu safonau a chanllaw ar gyfer cofrestryddion, a gwneud gwybodaeth yn hygyrch, yn rhan o sylfaen allweddol rheoleiddio da, mae'r safonau hyn yn amlwg yn cynnwys elfen o ddyblygiad. Byddai'n gymharol syml i resymoli'r Safonau hyn i gwmpasu'r cysyniadau allweddol o reolyddion yn rhoi llais i'r safonau, cyfrifoldebau ac ymddygiadau sy'n cyfateb i ymarfer diogel ac i fod yn agored i'r cyhoedd yn eu rolau. Gellid lleihau'r nifer cyffredinol o Safonau sy'n delio â hyn yn sylweddol.

*Cwestiwn 14) A ydych chi'n cytuno gyda'n cynigion i resymoli'r Safonau yn y meysydd a awgrymwyd gennym?*

*Cwestiwn 15) A oes yna unrhyw feysydd eraill ble rydych chi'n credu y gellid rhesymoli neu symleiddio'r Safonau?*

***Rhesymoli'r Safonau – llywodraethu gwybodaeth***

3.46 Ar hyn o bryd mae yna un safon yn cwmpasu llywodraethu gwybodaeth. Mae hyn yn gofyn bod 'Gwybodaeth am achosion addasrwydd i ymarfer yn cael ei chadw'n ddiogel' (*Degfed Safon ar gyfer addasrwydd i ymarfer)*. Mae ein hadolygiadau o'r maes hwn wedi eu hanelu at fesur gallu'r rheolyddion i atal problemau rhag codi ac i ddal risgiau sy'n dod i'r amlwg yn hytrach na chanolbwyntio ar weithredoedd blaenorol. Mae rhai o'n rhanddeiliaid yn ystyried hyn i fod yn faes perfformiad pwysig gan y gall methiannau i gadw gwybodaeth am achosion addasrwydd i ymarfer niweidio hyder y cyhoedd. Mae hefyd yn rhan o'r darlun cyffredinol yr ydym yn ei gasglu am berfformiad sefydliad. Mae rhanddeiliaid eraill wedi nodi na ddylai'r Awdurdod roi pwyslais ar hyn gan fod Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth hefyd yn ystyried pa mor dda mae'r rheolyddion yn trin gwybodaeth.

3.47 O ystyried y gwahaniaeth barn ymysg ein rhanddeiliaid, credwn y byddai'n fuddiol ystyried hyn yn rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus.

*Cwestiwn 16) A ydych chi'n meddwl y dylai ein Safonau gynnwys ystyriaeth benodol o drefniadau llywodraethu gwybodaeth y rheolyddion?*

# 4. Sut y cyflwynir y Safonau: dau ddewis

4.1 Mae'r Safonau presennol wedi eu cyflwyno yn unol â'r gweithgareddau sy'n cefnogi swyddogaethau allweddol y rheolyddion. Rydym wedi nodi nifer o fanteision a heriau a gyflwynwyd trwy gyflwyno'r Safonau fel hyn o ran ein hunain, y rheolyddion ac eraill sydd â diddordeb yn ein gwaith.

4.2 Manteision y Safonau cyfredol yw eu bod yn nodi meysydd allweddol gwaith rheoleiddio y byddwn yn eu mesur yn ein hadolygiad perfformiad ac yn darparu sicrwydd (ac yn rheoli disgwyliadau) ynghylch beth fydd ein hadolygiadau perfformiad yn eu trafod.

4.3 Mae rhai rhanddeiliaid, yn cynnwys y rheolyddion, wedi nodi fod y Safonau cyfredol yn anhyblyg oherwydd, er ein bod yn eu gweithredu'n gyfartal ar draws yr holl reolyddion, mae rhai Safonau yn cwmpasu meysydd gwaith sy'n cyflwyno gwahanol lefelau o risg ar gyfer gwahanol reolyddion. Mae rhai o'r Safonau yn ailadroddus gan eu bod yn trafod yr un cysyniadau (e.e. darparu gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd) ar draws nifer o wahanol feysydd gwaith. Yn ogystal, mae'r Safonau wedi eu beirniadu am ganolbwyntio ar broses a pheidio delio'n benodol â'r egwyddorion a amlinellir yn *Rheoleiddio cyffyrddiad cywir*.

4.4 Felly rydym yn gofyn am farnau ar p'un a ddylid cadw'r fframwaith cyfredol neu gyflwyno fframwaith newydd yn seiliedig ar egwyddorion.

### Opsiwn 1: cadw'r fframwaith presennol ond ei ddiweddaru

4.5 Dan yr opsiwn hwn, byddwn yn cadw'r strwythur presennol ble byddwn yn edrych ar weithgareddau craidd presennol gwaith y rheolyddion gyda'r posibiliad o ychwanegu categorïau parthed addasrwydd i ymarfer parhaus a llywodraethu. Yna byddem yn diwygio'r Safonau o fewn y rheiny o ganlyniad i'r ymatebion i'r cynigion a gyflwynir yn Adran 3 y papur hwn.

4.6 Mae'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r ffaith bod angen adnewyddu'r Safonau o ganlyniad i ddatblygiadau newydd yn y sectorau iechyd a rheoleiddio ers cyflwyno'r Safonau ddiwethaf. Gallai hefyd ddelio â rhywfaint o'r ailadrodd a geir ar hyn o bryd.

4.7 Un fantais i'r dull hwn yw y byddai'n gymharol hawdd i'r rheolyddion addasu i'r newidiadau yn y Safonau ac i ni eu gweithredu. Ar y llaw arall, ni fyddai'n delio â'r pryderon nad yw'r Safonau yn canolbwyntio ar ddeilliannau ac nad ydynt yn ystyried y gwahanol ffyrdd y mae rheolyddion yn gweithio. Gallai hefyd olygu y bydd angen adnewyddu'r Safonau ymhen 3-4 mlynedd o ganlyniad i ddatblygiadau newydd mewn gofal iechyd a rheoleiddio.

*Cwestiwn 17) A ydych chi'n cytuno gyda'n hasesiad o fanteision ac anfanteision y dull presennol? A oes unrhyw ystyriaethau eraill y dylem roi sylw iddynt?*

### Opsiwn 2: Arddull seiliedig ar egwyddorion

4.8 Yn yr opsiwn hwn, rydym yn cynnig gwahanol fframwaith ar gyfer y Safonau ble mae'r Safonau wedi eu halinio gyda grŵp bychan o egwyddorion trosfwaol y credwn ddylai hysbysu ymagwedd y rheolyddion i'w holl swyddogaethau. Hoffem asesu i ba raddau mae pob rheolydd wedi rhoi'r egwyddorion hynny ar waith ar draws eu swyddogaethau rheoleiddiol.

4.9 Rydym wedi cyflwyno enghraifft o sut olwg fydd ar y Safonau hyn dan y dull hwn yn Atodiad B. Hoffem bwysleisio nad ydym wedi casglu barnau ar eiriad na lleoliad y Safonau eto, a phe byddem yn mabwysiadu'r fath ddull, y byddai ymgynghori pellach ar y manylion. Rydym yn gofyn am farnau cychwynnol ar y manylion hynny isod.

4.10 Wrth edrych ar yr opsiwn hwn, rydym yn cyflwyno yn gyntaf beth yw manteision ac anfanteision y dull ac yna'n casglu barn ar gwestiynau manylach ynghylch yr opsiwn.

4.11 Credwn y byddai gan y dull hwn y manteision canlynol:

- Byddai'n ein galluogi i ystyried y gwahaniaethau ymysg y rheolyddion mewn ffordd deg ac i'w hannog i daclo'r risgiau mewn ffordd sy'n gweithio i'w cymuned benodol
- Byddai'n annog y rheolyddion i edrych ar eu perfformiad ac ymddygiadau ar draws eu swyddogaethau rheoleiddiol a gallai annog arloesi
- Byddai llai o bwyslais ar brosesau gyda mwy o ffocws ar ymddygiadau'r rheolyddion
- Byddai'n debygol o osgoi'r dyblygu a geir yn y dull presennol
- Gallai ein hadroddiadau ddelio ag ymddygiadau sy'n bwysig ac nad ydynt o reidrwydd wedi eu cynnwys yn y Safonau cyfredol.

4.12 Rydym yn cydnabod y gall fod anfanteision i'r dull:

- Efallai y bydd diffyg eglurder o ran y materion a gynhwysir dan bob egwyddor, ac efallai y bydd gofyn i ni gyhoeddi canllaw pellach, gan leihau'r elfen o hyblygrwydd
- Yn ymarferol, bydd y Safonau newydd dan bob pennawd yn edrych ar weithgareddau tebyg iawn felly ni fydd y rheolyddion o reidrwydd yn gweld fawr o wahaniaeth
- Ni fydd yr adroddiadau newydd yn gyson gyda'n hadroddiadau cyfredol gan ei gwneud yn anodd i ni gymharu perfformiad y rheolydd gyda'r flwyddyn flaenorol
- Fe fydd angen addasiad sylweddol a chyfnod 'setlo' a allai fod yn feichus ac achosi ansicrwydd.

*Cwestiwn 18) A ydych chi'n cytuno gyda'n hasesiad o fanteision ac anfanteision y dull hwn? A oes unrhyw ystyriaethau eraill y dylem roi sylw iddynt?*

### *Beth ddylai'r egwyddorion fod?*

4.13 Wrth ystyried beth ddylai'r egwyddorion fod, ein man cychwyn fu i ystyried yr egwyddorion a nodwyd gan y Gweithgor Rheoleiddio Gwell ac yn ein papur ar *Reoleiddio cyffyrddiad cywir.*[11] Sef:

- Cymesuredd: dim ond pan fo angen dylai rheolyddion ymyrryd. Dylai datrysiadau fod yn addas i'r risg a gyflwynir, a rhaid nodi a lleihau costau

[11] Gweler troednodyn 2.

- Cysondeb: rhaid i reolau a safonau fod yn gydgysylltiedig a’u gweithredu’n deg
- Targedig: dylai rheoleiddio ganolbwyntio ar y broblem, a lleihau sgìl effeithiau
- Tryloywder: dylai rheolyddion fod yn agored, a chadw rheoliadau’n syml a hawdd eu defnyddio
- Atebolrwydd: rhaid i reolyddion allu cyfiawnhau penderfyniadau, a bod yn amodol i graffu’r cyhoedd
- Ystwythder: rhaid i reoleiddio edrych i'r dyfodol a gallu rhagweld newid.

4.14 Gall fod yn ddefnyddiol gweithredu'r egwyddorion hyn yn yr adolygiad perfformiad gan eu bod eisoes wedi eu mynegi ac mae'r rheolyddion yn gyfarwydd â nhw. Mae'r egwyddorion hyn hefyd yn darparu cysondeb rhwng ein gwaith craffu a pholisi. Fodd bynnag, ni chynlluniwyd yr egwyddorion hyn i gael eu gweithredu mewn adolygiad perfformiad yn y ffordd a ddisgrifiwyd gennym ac nid yw'r holl faterion y byddem yn craffu arnynt yn ystod yr adolygiad perfformiad yn ffitio'n rhesymegol yn yr egwyddorion hynny.

4.15 Yn benodol, mae dau gysyniad nad ydynt yn cyd-fynd yn dda gyda'r egwyddorion a sefydlir uchod. Sef ‘tegwch’ ac ‘effeithlonrwydd’ gan fod y rhain yn allweddol i ethos rheolydd yn ein barn ni, ac yn aml wedi eu mynegi gan randdeiliaid wrth ddisgrifio eu profiad o ryngweithio gyda'r rheolydd.

4.16 Gellid diffinio'r ddwy egwyddor yma fel:

- Tegwch: dylai rheolyddion fod yn ddiduedd, cyfiawn a thrin pobl yn gyfartal

  Dan yr egwyddor yma, gallem ystyried ymagwedd y rheolyddion tuag at gydraddoldeb ac amrywiaeth (fel y sefydlom uchod, gweler paragraff 3.38-3.41). Gallai hefyd gynnwys ystyriaeth o degwch prosesau cofrestru ac addasrwydd i ymarfer rheolydd. Mae hyn yn rhywbeth rydym eisoes yn ei ystyried, ond gallai ynysu'r egwyddor hon ysgogi mwy o graffu yn y meysydd hyn.

- Effeithlonrwydd: dylai rheolyddion ddeall y galw am adnoddau a pharu adnoddau'n briodol fel nad yw prosesau yn cymryd mwy o amser nag sy'n briodol i gyflawni'r canlyniad cywir.

  Dan yr egwyddor hon, gallwn ystyried yn benodol allu rheolydd i reoli ei lwyth gwaith yn effeithiol, tra'n cydnabod nad yw cyflymder, ynddo'i hun, o reidrwydd yn faen prawf allweddol, ac i arddangos bod y rheolydd yn deall y galw presennol a thebygol yn y dyfodol am adnoddau.

4.17 Rydym hefyd yn cydnabod y gall fod cysyniadau eraill a allai fod yn fwy addas i'r diben hwn ac rydym yn gwahodd awgrymiadau am ddulliau amgen o fynegi egwyddorion a allai ein helpu i farnu perfformiad rheolydd.

*Cwestiwn 19) A ydych chi'n cytuno y dylai'r Awdurdod ddefnyddio'r egwyddorion yn Rheoleiddio cyffyrddiad cywir fel y cysyniadau sylfaenol ar gyfer ei asesiad o berfformiad rheolyddion?*

*Cwestiwn 20) A ddylai'r Awdurdod ychwanegu egwyddorion Tegwch ac Effeithlonrwydd?*

*Cwestiwn 21) A oes egwyddorion eraill y dylid eu hychwanegu neu wahanol ddulliau o fynegi'r cysyniadau a allai fod yn fwy addas i'n hadolygiad perfformiad?*

4.18 Mae'r geiriad ar gyfer y Safonau a sefydlir yn Atodiad B i ddibenion dangosol yn unig. Mae'n ceisio bod yn gyffredinol gyson gyda geiriad y Safonau presennol, tra'n ystyried yr addasiadau a gynigiwyd mewn rhan arall o'r papur hwn. Byddem yn ddiolchgar am unrhyw sylwadau cychwynnol ar eiriad y Safonau.

*Cwestiwn 22) A oes gennych unrhyw sylwadau cychwynnol ar y geiriad a ddefnyddiwyd yn yr enghraifft?*

4.19 Yn gyffredinol, nid ydym yn disgwyl i'r broses adolygiad perfformiad ei hun newid yn arwyddocaol pe byddem yn gweithredu ymagwedd seiliedig ar egwyddorion, er ei bod yn bosibl y gallem fod angen tystiolaeth newydd na chasglwyd yn flaenorol. Bydd angen i ni adolygu ein dogfennaeth canllaw i egluro beth fydd yr Awdurdod yn chwilio amdano wrth asesu rheolyddion dan y fframwaith newydd.

*Cwestiwn 23) A oes gennych chi unrhyw arsylwadau ynghylch yr anawsterau a allai godi ar gyfer y rheolyddion neu'r Awdurdod wrth gasglu gwybodaeth a thystiolaeth i weithredu'r adolygiad perfformiad dan ddull seiliedig ar egwyddorion?*

*Cwestiwn 24) A ydych chi'n credu y dylai'r Awdurdod fabwysiadu'r dewis cyntaf neu'r ail ddewis?*

# 5. Mesuriad

5.1 Ni wnaeth ein gwaith cyn cychwyn ymgynghori ofyn yn benodol am sylwadau ar sut ydym yn mesur perfformiad yn erbyn y Safonau, ond cododd y cwestiwn yn ystod trafodaethau. Yn benodol, cafwyd trafodaeth ynghylch a ddylem ddisgrifio bod perfformiad yn erbyn y Safonau wedi ei 'fodloni' neu 'heb ei fodloni'. Mae'n nodedig nad yw'r Awdurdod wedi dilyn y dull hwn o'r cychwyn cyntaf.

5.2 Credwn fod disgrifio perfformiad yn erbyn y Safonau fel wedi ei fodloni/heb ei fodloni yn darparu eglurder i'r rhai sydd â diddordeb mewn deall ein gwaith oherwydd gallwn fod yn ddiamwys am ble mae'r problemau o ran perfformiad. Mae hefyd yn nodi'n glir ble mae angen i reolydd wella.

5.3 Wedi dweud hynny, mae disgrifio Safon fel wedi ei bodloni/heb ei bodloni yn erfyn di-awch ac ni fydd o reidrwydd yn helpu os yw perfformiad yn gwella neu'n gwaethygu ac mae'r darlun yn aneglur. Mae'n debygol o fod yn anodd ei addasu i'r dull seiliedig ar egwyddorion a ddisgrifir yn Adran 4.

5.4 Yn ogystal, gellir defnyddio perfformiad yn erbyn safonau fel modd o gymharu perfformiad cyffredinol rheolyddion gyda'i gilydd mewn ffordd na fwriadwyd. Nid ydym yn ystyried perfformiad rheolyddion i fod yn rhywbeth hawdd i'w gymharu ac nid yw'n dilyn fod un rheolydd yn methu tair safon o reidrwydd yn waeth nag un arall sy'n methu dwy. Mae hyn oherwydd bod yr amrywiaeth ymysg y rheolyddion yn golygu y gallai methiant i fodloni un Safon gyflwyno mwy o risgiau i ddiogelu'r cyhoedd ar gyfer un rheolydd nag un arall.

5.5 Yn olaf, gellir cael trafodaeth arwyddocaol rhwng y rheolydd a'r Awdurdod ynghylch a yw Safon wedi ei bodloni/heb ei bodloni ac mae risg y bydd hyn yn mynd â sylw'r rheolydd oddi wrth ddatrys y pryder a nodwyd.

5.6 Un opsiwn fyddai i ddychwelyd i ddull naratif heb gyfeirio at fodloni Safonau neu beidio. Mae hyn yn ein galluogi i fod yn glir ynghylch ein pryderon, ond mae perygl y bydd diffyg eglurder o ran pa mor dda mae rheolydd yn perfformio.

5.7 Dull posibl arall fyddai i raddio perfformiad fel a ganlyn:

- Mae'r rheolydd wedi bodloni'r Safon
- Mae'r rheolydd wedi bodloni'r Safon gyda phryderon y mae/nad yw yn eu taclo, ond nid oes digon o dystiolaeth i ddweud nad yw'r Safon wedi ei bodloni
- Nid yw'r rheolydd wedi bodloni'r Safon ac mae/nid yw yn taclo'r pryderon.

5.8 Byddai'r dull hwn yn ein galluogi i fod yn fwy awgrymog yn y modd rydym yn disgrifio perfformiad, ond gallai gymhlethu'r neges ynghylch perfformiad hyd yn oed gyda'r esboniad naratif o'n penderfyniad.

5.9 Yn ein gwaith cychwynnol, fe ystyriom a ddylem gael dull mwy cymhleth oedd yn asesu aeddfedrwydd y rheolydd a'i gapasiti yn gyffredinol. Rydym wedi penderfynu peidio mabwysiadu'r dull hwn gan ein bod o'r farn ei bod yn bwysig i ni ganolbwyntio ar sut mae'r sefydliad yn cyflawni ei swyddogaeth reoleiddio ac yn diogelu'r cyhoedd. Credwn y byddai'n anodd asesu ymagwedd fwy cymhleth a pheidio cynorthwyo dealltwriaeth y cyhoedd o berfformiad y rheolydd.

*Cwestiwn 25) A ydych chi'n credu y dylai'r Awdurdod barhau i ddefnyddio ei 'ddull bodlonwyd/ni fodlonwyd'? Os nad, pa ddull fyddech chi'n ei ffafrio?*

*Cwestiwn 26) A oes dulliau eraill o adrodd ar berfformiad y dylai'r Awdurdod ystyried?*

# 6. Asesiad o effaith y cynigion

6.1 Y Safonau yw'r offeryn a ddefnyddiwn i fesur perfformiad y rheolyddion ac rydym yn ystyried mai nhw fydd yn teimlo effaith unrhyw newidiadau i'r Safonau fwyaf. Rydym yn awyddus i sicrhau ein bod yn deall unrhyw effaith neu faich mae ein cynigion yn debygol o greu er mwyn i ni allu ystyried unrhyw newidiadau priodol.

6.2 Mae ein barn gychwynnol fel a ganlyn:

- Efallai y bydd y rheolyddion yn canfod baich cychwynnol o ran datblygu ffyrdd o daclo'r Safonau newydd ac efallai y bydd yna faich parhaus atodol i ddarparu gwybodaeth. Fodd bynnag, credwn ei bod yn annhebygol y bydd y baich atodol yn sylweddol, ond byddem yn ddiolchgar i gael barn ar hyn gan y rheolyddion
- Os bydd rhai Safonau yn cael eu gollwng, yna mae'n debygol y bydd y baich yn lleihau
- Mae Opsiwn 1 yn debygol o fod yn symlach i'w gyflwyno
- Mae Opsiwn 2 yn debygol o fod yn fwy cymhleth i'w ddarparu oherwydd y gallai'r newidiadau alw am fwy o waith ymgynghori ac ymchwil a mwy o ymgysylltu gyda'r rheolyddion i sicrhau gweithrediad effeithiol.
- Disgwyliwn i'r Awdurdod gyflawni'r gwaith hwn o fewn ei adnoddau cyfredol.

6.3 Yn ystod pob cam o ddatblygiad ein cynigion, fe ystyriom a oes goblygiadau cydraddoldeb, naill ai'n bositif neu'n negyddol, ar gyfer ein rhanddeiliaid. Nid ydym wedi nodi unrhyw oblygiadau cydraddoldeb neu amrywiaeth negyddol arwyddocaol o'n cynigion a disgwyliwn y bydd budd positif i gleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd o wella craffu ar y rheolyddion a ddaw wrth ddiweddaru'r Safonau. Yn wir, os bydd amrywiaeth yn cael ei gynnwys yn ein Safonau, byddem yn disgwyl rhai effeithiau positif.

6.4 Fodd bynnag, byddem yn croesawu unrhyw adborth i sicrhau'n bod yn ystyried yr holl faterion perthnasol. Byddem yn croesawu unrhyw sylwadau ynghylch effaith y cynigion hyn.

*Cwestiwn 27: A oes unrhyw agweddau o'r cynigion hyn y teimlwch allai arwain at driniaeth wahaniaethol, neu effaith ar, grwpiau neu unigolion yn seiliedig ar y nodweddion canlynol a ddiffiniwyd dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010:*

- *Oed*
- *Ailbennu rhywedd*
- *Ethnigrwydd*
- *Anabledd*
- *Beichiogrwydd a mamolaeth*
- *Hil*
- *Crefydd neu gred*
- *Rhyw*

- *Tueddfryd rhywiol*
- *Arall (nodwch)*

*Os rhoesoch ateb cadarnhaol i unrhyw un o'r uchod, esboniwch pam a beth ellid gwneud i newid hyn.*

# 7. Cwestiynau ymgynghori

## Crynodeb o gwestiynau

*Cwestiwn 1(a): A ddylai'r Safonau gwmpasu perfformiad y rheolyddion parthed Safonau a chanllaw?*

*Cwestiwn 1(b): Pa agweddau o'r gwaith yn gysylltiedig i osod safonau a chanllaw ar gyfer cofrestryddion ddylai'r Safonau ganolbwyntio arnynt?*

*Cwestiwn 2a): A ddylai'r Safonau gwmpasu perfformiad y rheolyddion parthed swyddogaeth addysg a hyfforddiant fel y sefydlwyd yn y cynigion hyn?*

*Cwestiwn 2b): Pa agweddau o waith yn gysylltiedig i addysg a hyfforddi a ddylai'r Safonau ganolbwyntio arnynt?*

*Cwestiwn 3a): A ddylai'r Safonau gwmpasu cynllunio a darparu cynlluniau addasrwydd i ymarfer parhaus?*

*Cwestiwn 3b): Pa agweddau o'r cynllun a darpariaeth cynlluniau addasrwydd i ymarfer parhaus ddylai'r Safonau gynnwys?*

*Cwestiwn 4a): A ddylai'r Safonau gwmpasu cyflawniad y swyddogaeth reoleiddio fel y sefydlwyd yn y cynigion hyn?*

*Cwestiwn 4b): Pa agweddau o'r swyddogaeth gofrestru ddylai'r Safonau ganolbwyntio arnynt?*

*Cwestiwn 5a): A ddylai'r Awdurdod barhau i fonitro gweithgareddau'r rheolyddion i atal ymarfer anghyfreithiol neu heb gofrestru a pha lefel o flaenoriaeth dylid rhoi i'r gwaith hwn?*

*Cwestiwn 5b): Os dylai, a ydych chi'n cytuno y dylai'r Safon(au) fod yn gyfyngedig i'r meysydd a nodwyd gennym uchod?*

*Cwestiwn 5c): Yn gyffredinol, pa agweddau o'r gwaith yn gysylltiedig ag atal ymarfer anghyfreithlon neu heb gofrestru dylai'r Safonau ganolbwyntio arnynt?*

*Cwestiwn 6a): A ddylai'r Safonau gwmpasu addasrwydd i ymarfer?*

*Cwestiwn 6b): Pa agwedd o weithgareddau yn gysylltiedig i addasrwydd i ymarfer dylai'r Safonau ganolbwyntio arnynt?*

*Cwestiwn 7a): A ddylai'r Safonau gwmpasu gwaith llywodraethu'r rheolyddion?*

*Cwestiwn 7b): Pa agwedd o'r gweithgareddau yn gysylltiedig â llywodraethu dylai'r Safonau ganolbwyntio arnynt?*

*Cwestiwn 7c): A oes gennych gwestiynau eraill am ein hymagwedd i lywodraethu?*

*Cwestiwn 8) A ddylem gyflwyno Safon newydd sy'n gofyn i reolyddion gael mecanweithiau sy'n eu galluogi i gasglu gwybodaeth gan fyfyrwyr a thiwtoriaid ynghylch cydymffurfiad gydag isafswm safonau diogelwch?*

*Cwestiwn 9) A ddylem addasu geiriad y Safonau i ffocysu ar waith rheolyddion i sicrhau cadernid asesiadau dysgu?*

*Cwestiwn 10) A ddylid ehangu Safon yn cwmpasu addasrwydd i ymarfer parhaus i gynnwys effeithlonrwydd y cynllun a phrosesau'r rheolydd ar gyfer defnyddio dysgu o'r cynllun i hysbysu swyddogaethau eraill?*

*Cwestiwn 11) A ddylem gyflwyno Safon sy'n cwmpasu'r gyfran o'r broses addasrwydd i ymarfer rhwng penderfyniad y Pwyllgor Ymchwilio/archwilydd achos a'r panel terfynol?*

*Cwestiwn 12) A ddylem gyflwyno Safon yn cwmpasu gweithrediad mecanweithiau cydsyniol ar gyfer dileu a phriodoldeb eu deilliannau?*

*Cwestiwn 13) A ddylem gyflwyno safonau yn cwmpasu cydraddoldeb, amrywiaeth a thegwch?*

*Cwestiwn 14) A ydych chi'n cytuno gyda'n cynigion i resymoli'r Safonau yn y meysydd a awgrymwyd gennym?*

*Cwestiwn 15) A oes yna unrhyw feysydd eraill ble rydych chi'n credu y gellid rhesymoli neu symleiddio'r Safonau?*

*Cwestiwn 16) A ydych chi'n meddwl y dylai ein Safonau gynnwys ystyriaeth benodol o drefniadau llywodraethu gwybodaeth y rheolyddion?*

*Cwestiwn 17) A ydych chi'n cytuno gyda'n hasesiad o fanteision ac anfanteision y dull presennol? A oes unrhyw ystyriaethau eraill y dylem roi sylw iddynt?*

*Cwestiwn 18) A ydych chi'n cytuno gyda'n hasesiad o fanteision ac anfanteision y dull hwn? A oes unrhyw ystyriaethau eraill y dylem roi sylw iddynt?*

*Cwestiwn 19) A ydych chi'n cytuno y dylai'r Awdurdod ddefnyddio'r egwyddorion yn Rheoleiddio cyffyrddiad cywir fel y cysyniadau sylfaenol ar gyfer ei asesiad o berfformiad rheolyddion?*

*Cwestiwn 20) A ddylai'r Awdurdod ychwanegu egwyddorion Tegwch ac Effeithlonrwydd?*

*Cwestiwn 21) A oes egwyddorion eraill y dylid eu hychwanegu neu wahanol ddulliau o fynegi'r cysyniadau a allai fod yn fwy addas i'n hadolygiad perfformiad?*

*Cwestiwn 22) A oes gennych unrhyw sylwadau cychwynnol ar y geiriad a ddefnyddiwyd yn yr enghraifft?*

*Cwestiwn 23) A oes gennych chi unrhyw arsylwadau ynghylch yr anawsterau a allai godi ar gyfer y rheolyddion neu'r Awdurdod wrth gasglu gwybodaeth a thystiolaeth i weithredu'r adolygiad perfformiad dan ddull seiliedig ar egwyddorion?*

*Cwestiwn 24) A ydych chi'n credu y dylai'r Awdurdod fabwysiadu'r dewis cyntaf neu'r ail ddewis?*

*Cwestiwn 25) A ydych chi'n credu y dylai'r Awdurdod barhau i ddefnyddio ei 'ddull bodlonwyd/ni fodlonwyd'? Os nad, pa ddull fyddech chi'n ei ffafrio?*

*Cwestiwn 26) A oes dulliau eraill o adrodd ar berfformiad y dylai'r Awdurdod ystyried?*

*Cwestiwn 26) A oes dulliau eraill o adrodd ar berfformiad y dylai'r Awdurdod ystyried?*

*Cwestiwn 27: A oes unrhyw agweddau o'r cynigion hyn y teimlwch allai arwain at driniaeth wahaniaethol, neu effaith ar, grwpiau neu unigolion yn seiliedig ar y nodweddion canlynol a ddiffiniwyd dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010:*

- *Oed*
- *Ailbennu rhywedd*
- *Ethnigrwydd*
- *Anabledd*
- *Beichiogrwydd a mamolaeth*
- *Hil*
- *Crefydd neu gred*
- *Rhyw*
- *Tueddfryd rhywiol*
- *Arall (nodwch)*

- *Os rhoesoch ateb cadarnhaol i unrhyw un o'r uchod, esboniwch pam a beth ellid gwneud i newid hyn.*

## Sut i ymateb

7.1 Gallwch ymateb i'r papur ymgynghori hwn trwy www.surveymonkey.co.uk/r/PSA_Standards_Consultation_2017 neu trwy e-bost: teena.chowdhury@professionalstandards.org.uk, neu trwy'r post at

Teena Chowdhury
Professional Standards Authority
157-197 Buckingham Palace Road
London
SW1W 9SP

7.2 Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu os ydych chi angen fersiwn hygyrch o’r ddogfen hon, cysylltwch â ni ar 020 7389 8030 neu trwy e-bost at teena.chowdhury@professionalstandards.org.uk.

7.3 Dychwelwch eich ymateb atom erbyn **17 Mehefin 2017**.

## Cyfrinachedd gwybodaeth

7.4 Byddwn yn rheoli’r wybodaeth a ddarparwch mewn ymateb i’r papur trafod hwn yn unol â’n polisïau diogelwch gwybodaeth sydd ar gael ar ein gwefan (www.professionalstandards.org.uk).

7.5 Gellir cyhoeddi neu ddatgelu unrhyw wybodaeth a dderbyniwn, yn cynnwys gwybodaeth bersonol yn unol â chyfundrefnau mynediad i wybodaeth (yn

bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a'r Ddeddf Diogelu Data 1998 a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

7.6 Os ydych am i'r wybodaeth a ddarparwch aros yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol fod yna God Ymarfer dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag o ac sy'n delio, ymysg pethau eraill, â rhwymedigaethau cyfrinachedd. O ganlyniad, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam yr ydych yn ystyried fod yr wybodaeth yr ydych wedi darparu i ni yn gyfrinachol.

7.7 Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd dan bob amgylchiad. Ni ystyrir ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, i fod yn rhwymol i'r Awdurdod.

7.8 Byddwn yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a gan amlaf bydd hyn yn golygu na ddatgelir eich data personol i drydydd partïon.

# 8. Ein proses ymgynghori

8.1 Mae ein proses ymgynghori yn seiliedig ar egwyddorion presennol Swyddfa'r Cabinet ar ymgynghori cyhoeddus, *Consultation principles: guidance*.[12] Wrth gyflawni ymgynghoriadau cyhoeddus ar agweddau o waith yr Awdurdod, rydym yn ceisio:

- Bod yn glir o ran y broses ymgynghori a'r hyn sy'n cael ei gynnig. Mae hyn yn rhoi cyfle i ymatebwyr ddylanwadu ar ein syniadaeth ac ystyried manteision ac anfanteision ein cynigion
- Ymgynghori'n ffurfiol pan fydd cwmpas i ddylanwadu ar y polisi fel bod diben i'r ymgynghoriadau
- Roi digon o wybodaeth i sicrhau bod y rhai yr ymgynghorir â nhw yn deall y materion ac yn gallu darparu ymatebion gwybodus. Rydym yn cynnwys asesiadau o gostau a buddion a'r opsiynau a ystyriwyd
- Ceisio barn gyfunol cyn cyhoeddi ymgynghoriad ysgrifenedig, yn arbennig wrth ymgynghori ar gynigion newydd
- Ymgynghori am gyfnod cymesur o amser, gan gasglu barnau ar natur ac effeithiau'r cynigion. Byddai ymgynghori am gyfnod rhy hir yn oedi datblygiad polisi ac nid yw ymgynghori'n rhy gyflym yn rhoi digon o amser ar gyfer ystyriaeth a bydd yn lleihau safon yr ymatebion
- Sicrhau bod ein hymgynghoriad yn dargedig i ystyried yr ystod lawn o randdeiliad, cyrff ac unigolion a effeithir gan y polisi a chynnwys grwpiau cynrychiadol perthnasol. Ystyried targedu grwpiau penodol os oes angen.
- Ystyried ymgynghori i fod yn broses barhaus, nid dogfennau ac ymatebion ffurfiol yn unig.
- Dadansoddi ymatebion yn ofalus ac esbonio'r ymatebion a dderbyniwyd a sut maent wedi hysbysu'r polisi. Rhoi adborth clir i'r rhai sy'n cymryd rhan yn dilyn yr ymgynghoriad. Cyhoeddi ymatebion i'r ymgynghoriad o fewn 12 wythnos neu esbonio pam nad yw hynny'n bosibl
- Caniatáu amser priodol rhwng cau'r ymgynghoriad a gweithredu'r polisi.

8.2 Os oes gennych bryderon neu sylwadau yn ymwneud yn benodol â'r broses ymgynghori ei hun, cysylltwch â ni:

Christine Braithwaite
Director of Standards and Policy
Professional Standards Authority
157-197 Buckingham Palace Road
London SW1W 9SP
Ffôn: 020 7389 8030
Ffacs: 020 7389 8040

christine.braithwaite@professionalstandards.org.uk

[12] Swyddfa'r Cabinet. 2016. *Consultation principles: guidance.* Ar gael o: www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/492132/20160111_Consultation_principles_final.pdf

# Atodiad A – Y Safonau Rheoleiddio Da

| | |
|---|---|
| **Canllaw a safonau** | |
| Safon Gyntaf | Mae safonau cymhwyster ac ymddygiad yn adlewyrchu ymarfer cyfredol a deddfwriaeth. Maent yn blaenoriaethu diogelwch cleifion a defnyddwyr gwasanaeth a gofal sy'n canolbwyntio ar gleifion a defnyddwyr gwasanaeth |
| Ail Safon | Mae canllaw atodol yn helpu cofrestryddion i gymhwyso safonau cymhwyster ac ymddygiad y rheolyddion i faterion arbenigol neu benodol yn cynnwys delio ag anghenion amrywiol yn deillio o ofal ble mae cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn ganolog |
| Trydedd Safon | Wrth ddatblygu ac adolygu canllawiau a safonau, mae'r rheoleiddiwr yn cymryd sylw o farn a phrofiadau rhanddeiliaid, digwyddiadau allanol, datblygiadau mewn rheoleiddio ym mhedair gwlad y Deyrnas Unedig, Ewrop ac yn rhyngwladol a dysgu o feysydd eraill gwaith y rheolyddion |
| Pedwaredd Safon | Cyhoeddir y safonau a chanllaw yn defnyddio fformatau hygyrch. Mae gweithwyr cofrestredig, gweithwyr cofrestredig posibl, cyflogwyr, cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn gallu dod o hyd i'r safonau a chanllaw a gyhoeddwyd gan y rheoleiddiwr ac yn gallu dysgu am weithredu posibl os na ddilynir y safonau a'r canllaw. |
| **Addysg a hyfforddiant** | |
| Safon Gyntaf | Mae safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant yn gysylltiedig i safonau ar gyfer unigolion cofrestredig. Maent yn blaenoriaethu diogelwch cleifion a defnyddwyr gwasanaeth a gofal sy'n canolbwyntio ar gleifion a defnyddwyr gwasanaeth. Dylai'r broses i adolygu neu ddatblygu safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant gynnwys barnau a phrofiadau rhanddeiliaid allweddol, digwyddiadau allanol a'r dysgu o'r broses sicrhau ansawdd |
| Ail Safon | Mae'r broses ar gyfer sicrhau ansawdd rhaglenni addysg yn gymesur ac yn ystyried barn cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, myfyrwyr a hyfforddeion. Mae hefyd wedi ffocysu ar sicrhau y gall darparwyr addysg ddatblygu myfyrwyr a hyfforddeion fel eu bod yn bodloni safonau cofrestru'r rheolyddion |
| Trydedd Safon | Gweithredir os yw'r broses sicrwydd ansawdd yn nodi pryderon ynglŷn â sefydliadau addysg a hyfforddiant |
| Pedwaredd Safon | Mae gwybodaeth ar raglenni a gymeradwyir a'r broses gymeradwyo ar gael i'r cyhoedd. |
| **Cofrestriad** | |
| Safon Gyntaf | Dim ond y rhai sy'n bodloni gofynion y rheoleiddiwr sydd wedi eu cofrestru |
| Ail Safon | Mae'r broses gofrestru, yn cynnwys rheoli apeliadau, yn deg, yn seiliedig ar safonau'r rheolyddion, yn effeithiol, yn dryloyw, diogel ac yn gwella o hyd |
| Trydedd Safon | Trwy gofrestrau'r rheolyddion, gall pawb gael mynediad hwylus i wybodaeth am gofrestryddion, ac eithrio parthed eu hiechyd, yn cynnwys p'un a oes cyfyngiadau ar eu hymarfer |
| Pedwaredd Safon | Mae cyflogwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd gwirio cofrestriad gweithiwr iechyd a gweithiwr cymdeithasol. Gall cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd ganfod a gwirio cofrestriad gweithiwr iechyd a gweithiwr cymdeithasol |
| Pumed Safon | Rheolir y risg o niwed i'r cyhoedd, a difrod i hyder y cyhoedd yn y proffesiwn yn gysylltiedig â rhai nad ydynt wedi cofrestru yn defnyddio teitl a ddiogelir neu'n cyflawni gweithred a ddiogelir mewn modd cymesur a seiliedig ar risg |

| | |
|---|---|
| Chweched Safon | Trwy ddatblygiad proffesiynol parhaus/systemau ail-ddilysu’r rheoleiddiwr, mae unigolion cofrestredig yn cynnal y safonau gofynnol i barhau i fod yn addas i ymarfer. |
| **Addasrwydd i ymarfer** | |
| Safon Gyntaf | Gall unrhyw un fynegi pryder, yn cynnwys y rheolydd, ynglŷn â gweithiwr cofrestredig |
| Ail Safon | Rhennir gwybodaeth am gwynion gyda sefydliadau o fewn fframweithiau cyfreithiol perthnasol |
| Trydedd Safon | Bydd y rheolydd yn ymchwilio i gŵyn, pennu a oes achos i'w ateb ac yn cymryd camau priodol gan gynnwys cyflwyno sancsiynau. Os oes angen, bydd y rheolydd yn cyfeirio'r unigolyn at sefydliad perthnasol arall |
| Pedwaredd Safon | Mae'r holl gwynion yn cael eu hadolygu ar eu derbyn ac achosion difrifol yn cael eu blaenoriaethu |
| Pumed Safon | Mae’r broses gwynion yn dryloyw, teg, cymesur ac yn canolbwyntio ar ddiogelu’r cyhoedd |
| Chweched Safon | Delir mor fuan â phosibl â chwynion, gan dalu sylw i gymhlethdod a'r math o achos, ac ymddygiad y ddwy ochr. Nid yw oedi yn arwain at niwed neu niwed posibl i gleifion |
| Seithfed Safon | Diweddarir pob parti mewn cwyn ar gynnydd eu hachos a’u cefnogi i gymryd rhan yn effeithiol yn y broses |
| Wythfed Safon | Mae pob penderfyniad yn ystod pob cam o'r broses yn rhesymol, cyson, yn diogelu'r cyhoedd ac yn cynnal hyder yn y proffesiwn |
| Nawfed Safon | Cyhoeddir pob penderfyniad terfynol, ac eithrio materion yn ymwneud ag iechyd nyrs, yn unol â'r ddeddfwriaeth a’u cyfathrebu i randdeiliaid perthnasol. |
| Degfed Safon | Cedwir gwybodaeth am gwynion yn ddiogel. |

# Atodiad B – Safonau wedi eu halinio yn ôl egwyddor

| Egwyddor | Safon | Tystiolaeth |
|---|---|---|
| **Cymesur**: dim ond pan fo angen dylai rheolyddion ymyrryd. Dylai datrysiadau fod yn addas i'r risg a gyflwynir, a rhaid nodi a lleihau costau | Y rheolau cymhwyso, Safonau a chanllaw a threfniadau i sicrhau addasrwydd i ymarfer parhaus ar gyfer cofrestryddion<br><br>1. Ffocws ar les y cyhoedd, sicrhau ymarfer diogel ac effeithiol, hyrwyddo proffesiynoldeb a blaenoriaethu gofal ble mae'r claf a'r defnyddiwr gwasanaeth yn ganolog.<br>2. Sicrhau nad oes unrhyw rwystrau amhriodol i ymarfer.<br><br>Gwneir newidiadau o ran sut mae'r rheolydd yn bodloni ei swyddogaethau statudol yn dilyn ymgynghoriad ac asesiad o'r risgiau fel bod y rheolydd yn fodlon eu bod yn gymesur i fodloni'r broblem.<br><br>Nid yw prosesau'r rheolydd yn gorfodi gofynion amhriodol ar gofrestryddion posibl, cofrestryddion neu achwynwyr a allai lesteirio eu gallu i ymgysylltu gyda'r rheolydd.<br><br>Prosesau i ddelio gyda:<br><br>1. Ceisiadau cofrestru<br>2. Achosion addasrwydd i ymarfer<br>3. Prosesau gweinyddol eraill<br>yn cymryd dim mwy o amser nag sydd angen i gyflawni canlyniad teg.<br><br>Wrth wneud penderfyniadau, mae'r rheolydd yn casglu | Barnau rhanddeiliaid;<br>adolygiadau gan y rheolydd;<br>Nifer o gofrestryddion.<br><br>Ymgynghoriadau a phapurau i'r Bwrdd;<br>Barnau rhanddeiliaid.<br>Mae hyn yn cwmpasu'r rheolau a safonau sy'n llywodraethu cymhwyso, cofrestru, addasrwydd i ymarfer parhaus, y broses addasrwydd i ymarfer a'r ymagwedd i ymarfer anghyfreithlon.<br><br>Barnau rhanddeiliaid/cwynion;<br>Adolygiadau gan y rheolydd.<br><br>Prosesau archwilio;<br>Setiau data. |

| | | |
|---|---|---|
| | digon o dystiolaeth i sicrhau bod y rheolydd neu ei baneli yn dod i benderfyniad priodol er lles y cyhoedd.<br><br>Wrth ddelio gyda rhai nad ydynt wedi cofrestru yn defnyddio teitl gwarchodedig neu'n cyflawni gweithred warchodedig, mae'r rheolydd yn gweithredu'n gymesur i'r risg o niwed i'r cyhoedd ac yn gweithio'n effeithiol gydag awdurdodau eraill. | Archwiliad o'r prosesau parthed cofrestriadau ac addasrwydd i ymarfer;<br>Dysgu a.29 yr Awdurdod.<br><br>Prosesau archwilio;<br>Barnau rhanddeiliaid. |
| **Cyson**: rhaid i reolau a safonau fod yn gydgysylltiedig a'u gweithredu'n deg | Mae'r rheolau parthed cymhwyster a safonau proffesiynol yn gyson yn fewnol a gyda'r pwerau statudol a gyda rhai rheolyddion a darparwyr gofal iechyd eraill cyn belled ag sy'n ymarferol ac er lles y cyhoedd.<br><br>Ceir tystiolaeth ddogfennol o weithdrefnau sydd ar waith i ganiatáu i'r rheolydd gyflawni ei swyddogaethau'n gyson. Mae'r rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac yn destun trosolwg priodol.<br><br>Ceir canllaw cyfredol a chlir i benderfynyddion i'w galluogi i gydymffurfio â'r rheolau a phrosesau fel bod eu penderfyniadau yn gyson.<br><br>Mae prosesau ar waith i alluogi'r rheolydd i fodloni ei hun bod trydydd partïon sy'n darparu hyfforddiant neu waith arall i gefnogi'r rheolydd yn cyrraedd safonau priodol.<br><br>Mae'r rheolydd yn deall amrywiaeth y bobl mae'n | Rhanddeiliaid eraill;<br>Papurau'r rheolydd;<br>Dogfennau'r rheolydd.<br>Bydd hyn cwmpasu pob agwedd o waith y rheolydd yn cynnwys addasrwydd i ymarfer.<br><br>Dogfennau'r rheolydd;<br>Gwybodaeth arall sydd ar gael i'r Awdurdod (e.e. a.29 a chwynion).<br><br>Dogfennau'r rheolydd;<br>Gwybodaeth arall sydd ar gael i'r Awdurdod (e.e. a.29 a chwynion).<br><br>Dogfennau'r rheolydd;<br>Adborth gan drydydd partïon. |

| | | |
|---|---|---|
| | ymgysylltu â nhw, yn ystyried hyn trwy gydol ei waith ac nid yw'n creu rhwystrau i unrhyw grŵp.<br><br>Mae prosesau'r rheolydd yn deg ac yn darparu partïon, yn arbennig rhai gydag anableddau neu sy'n fregus, â chefnogaeth briodol. | Dogfennau'r rheolydd.<br>Yn cwmpasu gofynion cymhwyso, cofrestru, safonau ac addasrwydd i ymarfer.<br><br>Dogfennau'r rheolydd;<br>Cwynion i'r awdurdod. |
| **Targedig**: dylai rheoleiddio ganolbwyntio ar y broblem, a lleihau sgìl effeithiau | Wrth ddefnyddio pwerau statudol, defnyddir y grym rheoleiddiol isafswm i ddelio â'r pryder a nodwyd ac fe'i defnyddir er lles y cyhoedd ac i sicrhau diogelwch cleifion a defnyddwyr gwasanaeth.<br><br>Mae penderfyniadau trwy gydol y broses addasrwydd i ymarfer yn sicrhau y cesglir y lefel briodol o dystiolaeth i ddelio â difrifoldeb y pryderon ac i sicrhau bod unrhyw gamau yn erbyn cofrestrydd yn delio â lles y cyhoedd. | Asesiadau rheolydd o risg a dadansoddiad o opsiynau wrth edrych ar newidiadau i safonau a phrosesau ym mhob maes.<br><br>Ystyriaeth o:<br>1. Drothwyon ar gyfer derbyniad<br>2. Asesiadau risg<br>3. Penderfyniadau ymchwilio/cyhuddo/cwblhau achos cyn panel<br>4. Gorchmynion dros dro<br>5. Cosbau a gyflwynir<br>6. Penderfyniadau cofrestru<br>7. Prosesau eraill. |
| **Tryloyw**: dylai rheolyddion fod yn agored, a chadw | Mae'r rheolydd yn mynegi ei ddiben statudol, a sut mae'n bwriadu cyflawni'r diben hwnnw. | Cofrestr y rheolydd;<br>Gwefan y rheolydd. |

| | | |
|---|---|---|
| rheoliadau'n syml a hawdd eu defnyddio | Mae gwybodaeth a chanllaw cywir, cyfredol a pherthnasol ar gael i'r cyhoedd ynghylch swyddogaethau statudol y rheolydd, yn cynnwys ei reolau a phrosesau fel y maent yn effeithio ar gofrestryddion ac eraill.<br><br>Ymgynghorir â rhanddeiliaid am newidiadau i reolau, safonau a phrosesau.<br><br>Mae'r rheolydd yn gweithio gyda chyrff eraill yn y system gofal iechyd, yn arbennig cyflogeion, cymdeithasau galwedigaethol ac eraill sy'n agosach at ddarpariaeth gofal, er mwyn sicrhau diogelwch cleifion.<br><br>Mae'r rheolydd yn ymateb i ymholiadau a phryderon am ei berfformiad yn effeithiol ac agored.<br><br>Mae rheolyddion yn annog gonestrwydd a thryloywder ymysg cofrestryddion a myfyrwyr. | Dogfennau'r rheolydd.<br><br>Adborth gan drydydd partïon; Dogfennau'r rheolydd. Edrych ar bob agwedd o waith yn cynnwys addysg, safonau ac addasrwydd i ymarfer.<br><br>Mae hyn yn galw am ddelio gyda chofrestryddion a rhanddeiliaid allanol.<br>Dogfennau'r rheolydd;<br>Adborth i'r Awdurdod.<br><br>Safonau a phrosesau'r rheolydd.<br><br>Adborth i'r Awdurdod. |
| **Ystwyth**: rhaid i reoleiddio edrych i'r dyfodol a gallu rhagweld newid | Mae'r rheolydd yn adolygu'r amgylchedd y mae'n gweithio ynddi i nodi a delio â risgiau newydd i ddiogelwch cleifion ac i'w brosesau ei hun.<br><br>Mae'r rheolydd yn casglu ac yn defnyddio adborth a dysgu gan eraill a'i brosesau ei hun i hysbysu newidiadau a delio â risgiau. | Prosesau a phapurau'r rheolydd;<br>Gwybodaeth gan randdeiliaid eraill. |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae'r rheolydd yn gwneud asesiadau risg rheolaidd ar achosion unigol ac yn ymateb yn briodol i dystiolaeth newydd. | |
| **Atebol**: rhaid i reolyddion allu cyfiawnhau penderfyniadau, a bod yn amodol i graffu’r cyhoedd | Mae'r rheolydd yn annibynnol ac yn canolbwyntio ar les y cyhoedd.<br><br>Mae'r rheolydd yn monitro, gwerthuso ac adrodd yn gywir ac agored ar ei berfformiad ei hun ac yn cymryd camau i daclo pryderon.<br><br>Ceir prosesau addas ar gyfer darparu gwybodaeth i'r cyngor i'w alluogi i fonitro perfformiad a chydymffurfiad ac mae'r cyngor yn effeithiol o ran delio â'r wybodaeth honno. | Papurau'r rheolydd; Gwybodaeth gan randdeiliaid.<br><br>Cwynion. |

**Professional Standards Authority for Health and Social Care**
157-197 Buckingham Palace Road
London SW1W 9SP

Ffôn: **020 7389 8030**
Ffacs: **020 7389 8040**
E-bost: **info@professionalStandards.org.uk**
Gwefan: **www.professionalStandards.org.uk**

© Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol
ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol Mehefin 2017